*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal
**DDYDD LLUN 21 MEDI 2026** am **09.30** o'r gloch
yn rhithwir **drwy Zoom**

Yn gywir,
Gareth Owens,
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**

   Hysbysiad o'r eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2026**

5. **Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol, i'w gymeradwyo**

6. **Datganiad o Gyfrifon 2025/26, i'w gymeradwyo**

7. **Adroddiad Cynnydd Chwarterol Archwiliad Mewnol 2026/27, i'w argymell**

8. **Diweddariad ar Reolaeth y Trysorlys Ch1 2026/27, er sicrwydd**

9. **Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw 2026/27, er sicrwydd**

10. **Rhagdybiaethau Gosod Cyllideb ar gyfer 2027/28, er gwybodaeth**

11. **Materion Brys**
    Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15 Mehefin 2026 yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Gareth Sandilands (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Tina Claydon (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Ann Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Hodge | Cyngor Sir y Fflint |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Elgan W Roberts | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Dafydd Edwards | Ymgynghorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Angharad Ellis | MIAA |
| Kieran Vickery | Archwilio Cymru |
| Charles Rigby | Archwilio Cymru |
| Heledd Davies | Cyfieithydd |
| Ffion Evans | Cynorthwyydd Gweithredol – cofnodydd |

**1.0 YMDDIHEURIADAU**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |

**YN ABSENNOL**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

## 2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw hysbysiadau o faterion brys.

## 4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MAWRTH 2026

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2026 i'w cymeradwyo. Cynigiwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion. Eiliwyd hyn a'i basio gyda phawb o blaid.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 5.0 DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL DRAFFT 2025/26

5.1 Cyflwynodd y PSTC Anthony Jones Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2025/26 a roddodd sicrwydd i'r Aelodau fod gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru drefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol effeithiol ar waith, yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2025-26.

5.2 Gofynnodd Aelod am gadarnhad ynghylch a oedd unrhyw adolygiad wedi'i gynnal i resymoli cyfarfodydd mewnol. Rhoddodd y PSTC Anthony Jones sicrwydd bod y strwythur llywodraethiant wedi'i adolygu a chadarnhaodd ei fod yn gweithredu'n effeithiol.

5.3 Gofynnodd Aelod am eglurhad ar strwythur y Tîm Rheoli, gan nodi PST, DBST, tri PSTC, a PSC. Cadarnhaodd y PSTC Anthony Jones fod gan y Gwasanaeth swyddi gwag ar hyn o bryd ar gyfer rolau DBST a PSC.

5.4 Gofynnodd y Cadeirydd pa mor gyfoes oedd hyfforddiant diogelu staff y Gwasanaeth Tân ac Achub (y Gwasanaeth). Rhoddodd y PSTC Anthony Jones sicrwydd gan nodi penodiad Rheolwr Diogelu a oedd ar hyn o bryd yn adolygu ac yn asesu’r trefniadau diogelu presennol; mae'n ofynnol i'r holl staff gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol. Rhoddodd y PSTC Justin Evans sicrwydd pellach bod Pwyllgor Diogelu ar waith i oruchwylio llywodraethiant yn y maes hwn.

5.5 Codwyd cwestiwn ynglŷn â rheoli perfformiad ac ymgysylltu â budd-ddeiliad. Rhoddodd y PSTC Anthony Jones sicrwydd i'r Aelodau fod yr adroddiadau Monitro Perfformiad yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth ar gyfer y cyhoedd.

5.6 Gofynnodd y Cadeirydd beth oedd y capasiti Rheoli Prosiectau, gyda phwyslais penodol ar y Ganolfan Hyfforddi, a beth oedd y trefniadau datblygiad proffesiynol parhaus sydd ar waith i gefnogi hyn. Dywedodd y PSTC Anthony Jones fod Swyddog Cefnogi Prosiect pwrpasol wedi'i benodi a bod gwerthusiad swydd ar y gweill i sefydlu rôl Rheolwr Prosiect pwrpasol ar gyfer y Gwasanaeth, gan gydnabod yr angen am weithiwr proffesiynol arbenigol yn y maes hwn.

5.7 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi cynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025-26; a**
- **ii) Cymeradwyo darparu Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025-26 i Archwilio Cymru yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014**

## 6.0 DATGANIAD O GYFRIFON BLYNYDDOL DRAFFT 2025/26

6.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y Datganiad o Gyfrifon Blynyddol drafft ar gyfer 2025/26, sy'n cynnwys yr alldro refeniw a chyfalaf, sefyllfa'r fantolen, a symudiadau ariannol allweddol ar gyfer yr Awdurdod.

6.2 Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cynnal sefyllfa ariannol sefydlog er gwaethaf pwysau ariannol parhaus. Roedd y sefyllfa alldro refeniw yn warged bach o £121,000 a oedd yn gyson â'r diweddariad a roddwyd i'r Awdurdod Tân yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2026.

6.3 Gofynnwyd a fyddai buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau hyfforddi. Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer y Ganolfan Hyfforddi a chododd y cwestiwn ynghylch pryd y byddai cynnal a chadw'r ystâd yn cael sylw yn y tymor byr. Sicrhaodd y PSTC Justin Evans yr Aelodau fod cyfleusterau presennol yn cael eu cynnal tra bod archwiliad manwl o opsiynau cyllido ar y gweill, gan gynnwys ystyried yr effaith ehangach ar wydnwch cymunedol.

6.4 Diolchodd yr Ymgynghorydd i'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled a nododd fod y PSTC Helen MacArthur bellach wedi ymgymryd â rôl Swyddog Adran 151.

6.5 Codwyd ymholiad ynglŷn â llithriad prosiect o tua £3.19 miliwn. Cadarnhaodd y PSTC Helen MacArthur fod hyn yn rhan o raglen ehangach, gyda threfniadau llywodraethiant prosiectau cadarn ar waith i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyflawni yn unol â rheolaethau a goruchwyliaeth sefydledig. Roedd y sefyllfa'n cael ei rheoli'n agos.

6.6 Nodwyd bod yr archwiliad allanol o'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2025/26 wedi dechrau a byddai'r fersiwn archwiliedig derfynol yn cael ei chyflwyno i'r aelodau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

6.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf heb ei archwilio;**
**ii) Nodi sefyllfa'r fantolen heb ei harchwilio;**
**iii) Nodi a chymeradwyo'r symudiad i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt; a**
**iv) Cymeradwyo'r ymateb i Archwilio Cymru mewn perthynas â materion llywodraethiant sy'n berthnasol i'r Datganiad o Gyfrifon.**

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL A BARN Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2025/26**

7.1 Croesawyd Angharad Ellis i'r cyfarfod a chyflwynodd Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2025/26. Nod yr adroddiad oedd rhoi sicrwydd i'r Aelodau ar y system gyfan o reolaeth fewnol, gan gynnwys digonolrwydd trefniadau rheoli risg a llywodraethiant corfforaethol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus 2017 CIPFA.

7.3 Mynegodd y PSTC MacArthur werthfawrogiad am y gwaith a wnaed gan MIAA.

7.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol am ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yr Awdurdod.**

**8.0 SIARTER ARCHWILIO MEWNOL 2026/27**

8.1 Croesawyd Angharad Ellis i'r cyfarfod a chyflwynodd Siarter Archwilio Mewnol 2026-27. Nod yr adroddiad hwn oedd rhoi'r Siarter Archwilio Mewnol i Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27.

8.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi a chymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol 2026/27**

## 9.0 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL CHWARTEROL

9.1 Croesawyd Angharad Ellis i'r cyfarfod a chyflwynodd y Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau o'r gwaith a wnaed gan ddarparwyr mewnol yr Awdurdod, MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ac ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mai 2026.

9.2 Nodwyd bod rhai o'r argymhellion yn parhau i fod heb eu defnyddio a bod angen rhagor o waith i ymgorffori trefniadau rheoli risg ar draws y Gwasanaeth yn llawn.

9.3 Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch pam nad oedd rhai o'r argymhellion rheoli risg wedi'u gweithredu eto ac a oedd hyn yn peri pryder i'r Gwasanaeth. Cadarnhaodd Angharad Ellis fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud a bod y Gwasanaeth wedi cadarnhau mai ei ffocws presennol oedd ymgorffori'r trefniadau hynny wrth symud ymlaen, a fyddai'n cymryd amser.

9.4 Rhoddodd y PSTC Anthony Jones sicrwydd pellach i'r Aelodau, gan gynghori bod y Gwasanaeth bellach yn gweithredu yn unol ag arfer gorau'r llywodraeth. Mae'r gwaith yn parhau i gryfhau fframweithiau rheoli risg ac i sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori'n llawn, gyda rheoli risg yn parhau i fod yn ganolog i holl weithgareddau'r Gwasanaeth.

9.5 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2025/26;**
- **ii) Gwneud cynnydd yn erbyn cynllun 2026/27 y cytunwyd arno; a**
- **iii) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt.**

## 10.0 ADRODDIAD ALLDRO RHEOLAETH Y TRYSORLYS 2025/26

**10.1** Cyflwynodd Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid, adroddiad alldro Rheolaeth y Trysorlys 2025/26. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Awdurdod ar weithgarwch rheoli trysorlys a chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

**10.2** Gofynnwyd beth fyddai'r goblygiadau pe na baem yn sicrhau cyllid gan y llywodraeth ganolog, gan gynnwys a fyddai'n ofynnol i'r Gwasanaeth gyfateb unrhyw gyllid yn y dyfodol. Rhoddodd y PSTC Helen MacArthur sicrwydd y byddai hyn yn cael ei ystyried a'i oruchwylio drwy lywodraethiant y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb.

**10.3** Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd monitro parhaus, o ystyried yr effaith bosibl ar yr Aelodau a'u hetholaethau.

**10.4 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r gweithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.**

**11.0 CYNLLUN ARCHWILIO CYMRU 2026**

**11.1** Croesawyd Kieran Vickery a Charles Rigby i'r cyfarfod i gyflwyno'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2026. Diben yr adroddiad yw cadarnhau Cynllun Archwilio 2026 sy'n manylu ar y dull archwilio a'r gwaith sydd i'w wneud gan Archwilio Cymru fel archwilwyr statudol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**11.2** Gofynnodd y Cadeirydd a oedd rheolaeth cyflogau, yn benodol cyflogau uwch-reolwyr, yn cael eu meincnodi yn erbyn rolau tebyg ledled Cymru.

**11.3** Nododd Kieran Vickery fod hyn y tu hwnt i gwmpas yr Archwiliad o'r Cyfrifon Terfynol.

**11.4** Rhoddodd y Swyddog Monitro sicrwydd pellach i'r Aelodau, gan gynghori bod cyfraddau cyflog y Prif Swyddog yn cael eu gosod ar sail meincnodi yn erbyn y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA). Mae'r Gwasanaeth yn cyd-fynd â chanolrif y meincnodau hyn, gyda lefelau cyflog yn destun adolygiad bob tair blynedd. Mae'r Awdurdod Tân llawn wedi cytuno'n ffurfiol â'r dull hwn.

**11.5** Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn ag amserlen y gwaith, a diolchodd yr Ymgynghorydd i Archwilio Cymru am eu cydweithrediad.

**11.6 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cwmpas y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru.**

**12.0 MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:33

**Cofnod o'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio ddydd Llun 15 Mehefin 2026**

| Rhif yr Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad / Datrysiad |
|---|---|---|
| 1 | Presenoldeb ac Ymddiheuriadau | Cynghorwyr yn bresennol: Gareth Sandilands (Cadeirydd); Tina Claydon (Dirprwy Gadeirydd); Ann Davies; Ian Hodge; Gwynfor Owen; Chrissy Gee; Austin Roberts; Arwyn Herald Roberts; Gareth R Jones; Jeff Evans<br><br>Ymddiheuriadau: Cynghorwyr: John Brynmor Hughes<br><br>Yn absennol: Cynghorwyr: Bryan Apsley; Beverly Parry-Jones<br><br>Hefyd yn bresennol: Y PSTC Helen MacArthur; y PSTC Anthony Jones; y PSTC Justin Evans; Elgan W Roberts, Pennaeth Cyllid; Dafydd Edwards, Cynghorydd; Gareth Owens, Clerc Monitro; Angharad Ellis, MIAA; Kieran Vickery, Archwilio Cymru; Charles Rigby, Archwilio Cymru; Heledd Davies, Cyfieithydd; Ffion Evans, Gwasanaethau Aelodau. |
| 2 | Datganiadau o Fuddiant | Dim. |
| 3 | Hysbysiad o Faterion Brys | Dim. |
| 4 | Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2025 | i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd. |

| Rhif yr Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad / Datrysiad |
|---|---|---|
| 5 | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2025/26 | i) Nodi cynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025-26; a<br>ii) Chymeradwyo darparu Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025-26 i Archwilio Cymru yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| 6 | Datganiad o Gyfrifon Blynyddol Drafft 2025/26 | i) Nodi'r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf heb ei archwilio;<br>ii) Nodi sefyllfa'r fantolen heb ei harchwilio;<br>iii) Nodi a chymeradwyo'r symudiad i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt; a<br>iv) Chymeradwyo'r ymateb i Archwilio Cymru mewn perthynas â materion llywodraethiant sy'n berthnasol i'r Datganiad o Gyfrifon. |
| 7 | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2025/26 | i) Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol am ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yr Awdurdod. |
| 8 | Siarter Archwilio Mewnol 2026/27 | i) Nodi a chymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol 2026/27 |
| 9 | Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarterol | i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2025/26;<br>ii) Gwneud cynnydd yn erbyn cynllun 2026/27 y cytunwyd arno; a<br>iii) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt. |
| 10 | Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys 2025/26 | i) Nodi'r gweithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026. |
| 11 | Cynllun Archwilio Cymru 2026 | i) Nodi cwmpas y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 5**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Pwyllgor Archwylio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Jonathan Blyde – Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025/26** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol terfynol i Aelodau'r Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (Yr Awdurdod) gyhoeddi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i ddangos:

- Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
- Bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol

3 Nodir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2025/26 yn Atodiad 1 ac mae wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government Framework (2016). Mae'r flaenraglen waith ar gyfer 2026/27 wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.

4 Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o gynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2025/26. Gwneir asesiad gan yr archwilydd allanol i gadarnhau a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol ac a yw wedi'i lunio yn unol â'r Fframwaith.

**ARSYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26 i'r Pwyllgor Archwilio ar 15 Mehefin 2026, ac ni wnaed unrhyw sylwadau.

**ARGYMHELLION**

6 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol terfynol, a:**
**ii) Cytuno ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 2026/27**

**CEFNDIR**

7 Ers 2010/11, rhaid i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, baratoi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

8 Pwrpas y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yw asesu a dangos bod system gadarn o lywodraethiant corfforaethol ar draws y sefydliad.

**GWYBODAETH**

9 Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith llywodraethiant newydd, sef Datblygu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (y Fframwaith). Strwythurwyd y Fframwaith o amgylch saith egwyddor llywodraethu sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol a nodi sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

10 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

11 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

12 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn rhaglen waith 2026/27 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth bob chwarter.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC ac yn dangos y trefniadau llywodraethiant sydd ar waith i alluogi'r Gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Amh. |
| Cyfreithiol | Mae paratoi a chyflwyno'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r Datganiad yn cyfeirio'n benodol at gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg. |
| Risgiau | Mae fframwaith llywodraethiant cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |




# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Datganiad Llywodraethiant Blynyddol DRAFFT 2025-26

ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL AR REOLAETH FEWNOL

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

Mae'r Datganiad hwn wedi'i baratoi yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a'r canllawiau a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE), 'Delivering Good Governance in Local Government Framework' 2016, gan gynnwys Atodiad 2025 i'r Adolygiad Blynyddol o Lywodraethiant a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

Mae'r berthynas rhwng y saith egwyddor ar gyfer llywodraethiant da yn y sector cyhoeddus i'w gweld isod.




Ffig. 1 Sut mae Egwyddorion llywodraethiant da yn berthnasol i'w gilydd.

Ffynhonnell: international Framework-Good Governance in the Public Sector

Tudalen 2

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn yn esbonio sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi cydymffurfio â'r fframwaith a'i saith egwyddor graidd ar gyfer llywodraethiant da er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio yn unol â pholisïau a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

**Cwmpas y Cyfrifoldeb**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd diwastraff, effeithlon, effeithiol a theg er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, sydd er budd pobl leol.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae Aelodau a'r Uwch-swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethiant materion yr Awdurdod, ynghyd â stiwardiaeth o'r adnoddau sydd ar gael iddo, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod, ynghyd â'i amrywiol Bwyllgorau, paneli a gweithgorau, yn rhoi ac yn cyflawni arweinyddiaeth strategol, sy'n galluogi Aelodau i benderfynu ar y materion sy'n effeithio ar y gwaith o gynnal yr Awdurdod, yn unol ag egwyddorion atebolrwydd democrataidd a bod yn agored.

**Diben y System o Reolaeth Fewnol**

Er mwyn cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod fodloni amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Golyga hyn fod y cyfyngiadau a'r cymhellion allanol a mewnol sydd arno yn wahanol i'r rhai a geir yn y sector preifat, ac mae pob un ohonynt yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethiant.

Un darn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried y tymor hwy wrth wneud ei benderfyniadau, ac i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.

Felly, mae gan fudd-ddeiliaid ddiddordeb mewn materion megis:

- a yw'r allbynnau a gynlluniwyd gan yr Awdurdod wedi'u cyflawni a'r canlyniadau wedi'u sicrhau, ac
- a yw hyn wedi'i wneud mewn modd effeithlon, diwastraff, effeithiol a theg.

Er mwyn sicrhau llywodraethiant da yn y sector cyhoeddus, mae angen i gyrff llywodraethu yn ogystal ag unigolion sy'n gweithio i sefydliadau'r sector cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd trwy'r adeg pan fyddant yn ceisio cyflawni eu hamcanion, sy'n awgrymu mai'r flaenoriaeth yw'r budd i gymdeithas, a dylai hynny arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a budd-ddeiliaid eraill.

Mae'r Datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

**Y Fframwaith Llywodraethiant**

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr wedi'i bennu gan boblogaeth yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael yma.

Rhaid i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y system lywodraethiant yn gadarn. Dyma rai o'r prif bethau sy'n cyfrannu at y broses hon:

Bod â strwythur Awdurdod a phwyllgorau sydd:

- yn monitro effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg
- yn adolygu'r trefniadau llywodraethiant yn rheolaidd
- yn ystyried ac yn adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol
- yn adolygu, yn craffu ar ac yn cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol.

Bod â Phanel Gweithredol sydd:

- yn rhoi arweiniad o ran llywodraethiant
- yn cyfrannu at gwblhau ac at adolygu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol
- yn darparu arweiniad clir i'r Gwasanaeth a'r uwch-reolwyr.

Y defnydd o wybodaeth o wahanol ffynonellau i lywio'r trefniadau llywodraethiant, er enghraifft:

- adroddiadau byrddau gwella a pherfformiad
- trefniadau rheoli risg
- adroddiadau gan reoleiddwyr allanol
- adroddiadau archwilio mewnol

Mae cyfarfodydd arferol yr Awdurdod yn cael eu mynychu o bell. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn cael eu gweddarlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Mae pob cyfarfod ar gael i'r cyhoedd ei arsylwi, os ydynt yn gwneud cais i wneud hynny.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod Datganiad Ysgrifenedig ar Lywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub Llywodraeth Cymru, sy'n nodi newidiadau posibl i drefniadau llywodraethiant ledled Cymru yn y dyfodol. Er nad yw'r cynigion hyn wedi'u hymgorffori yn y Gwasanaeth eto, mae'r Awdurdod yn eu hystyried fel rhan o'i asesiad parhaus o effeithiolrwydd llywodraethiant a pharodrwydd at y dyfodol.

Yn gynnar yn 2023, sefydlodd yr Awdurdod ddau weithgor er mwyn cefnogi datblygiad dwy flaenoriaeth sefydliadol allweddol:

- Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, sydd bellach wedi'i ddisodli gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cytundeb ar y Cyd, gyda chynrychiolaeth gan yr Undebau Llafur, ond heb unrhyw gynrychiolaeth gan yr Awdurdod Tân bellach.
- Gweithgor newydd y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu.

Yn ogystal, mae aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn eistedd ar y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel aelod sy'n hyrwyddwr, ac yn dilyn adroddiad adolygiad o ddiwylliant CREST mae'r Prif Swyddog Tân bellach yn cadeirio Bwrdd Diwylliannol i reoli'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol, sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Tân, 06i-cynllun-gwella-diwylliannol-strategol.pdf

Yn ystod 2025-26, datblygodd yr Awdurdod ei drydydd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC 2026/27), a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2026, i gyflawni yn erbyn yr amcanion a amlinellwyd yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2024-2029 pum mlynedd

Nod Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) yw nodi'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu pum egwyddor er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel, ac mae'r CRhRC:

- Yn cydnabod gofynion deddfwriaeth allweddol
- Yn ystyried gwaith parhaus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Yn nodi'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau
- Yn amlinellu gweithgarwch yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r risgiau hyn
- Yn egluro pa gamau y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf i liniaru'r risgiau hynny

- Yn cyd-fynd â chyllideb refeniw yr Awdurdod, ei gynllun cyfalaf a'i gynllun ariannol tymor canolig.

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Diagram Adrodd Sicrwydd (Diweddarwyd 03 Mehefin 2025)



Ffig 2. Pwyllgorau'r Awdurdod Tân ac Achub

Mae'r Awdurdod wedi dirprwyo cyfrifoldeb am weithrediad y Gwasanaeth Tân ac Achub (y Gwasanaeth) o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân.

Mae'r Prif Swyddog Tân yn cael ei gefnogi gan y Grŵp Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Swyddogion (y Prif Swyddog Tân a'r Swyddogion Tân Cynorthwyol), ac sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol.

Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn cynnwys y Prif Swyddogion, y Rheolwyr Ardal a'r Penaethiaid Adran. Mae'n cyfarfod fel Bwrdd Perfformiad er mwyn craffu ar berfformiad, ac fel Bwrdd Gwella er mwyn herio ac i oruchwylio rhaglenni, prosiectau a pholisïau ar lefel uchel. Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn rhoi arweinyddiaeth sefydliadol ac yn cyflwyno'r gwasanaethau.

Mae Strwythur Llywodraethiant a Sicrwydd y Gwasanaeth, sef y pwyllgorau a'r grwpiau, sy'n adrodd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad, gan ddangos bod y llywodraethiant yn gadarn o ran adrodd, monitro, craffu a gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad.  Yn ystod 2025–26, adolygwyd effeithiolrwydd y strwythur llywodraethiant presennol, a nodwyd gwelliannau i gryfhau goruchwyliaeth, eglurder atebolrwydd a sicrwydd ar draws y sefydliad ymhellach.




Ffig 3. Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth

## Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethiant

| | |
|---|---|
| Cyfansoddiad | Diben y Cyfansoddiad yw nodi sut mae'r Awdurdod Tân yn gweithio a'r modd y mae'n gwneud penderfyniadau, a hynny mewn iaith glir. |
| Yr Awdurdod Tân | Mae'n darparu'r arweinyddiaeth strategol, yr atebolrwydd democrataidd a'r her gorfforaethol mewn perthynas â darparu gwasanaethau tân ac achub ledled Gogledd Cymru, gan annog cyfranogiad y cyhoedd a chan gynnal ei faterion mewn modd agored a thryloyw. Mae'n cytuno ar y Cynllun Gwella a Llesiant, a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf. |
| Y Panel Gweithredol | Mae'n monitro perfformiad y Gwasanaeth ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar ei bolisïau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Panel yn adolygu'r gofrestr risg strategol. |
| Y Pwyllgor Archwilio | Mae'n darparu adolygiad annibynnol o'r fframweithiau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth, yn ogystal â goruchwylio'r adroddiadau ariannol, gan gynnwys y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r cyfrifon blynyddol. |
| Pwyllgor Safonau | Mae'n hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau'r Awdurdod ac yn goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo hynny'n bosibl yn statudol, mae'n cael adroddiadau a chwynion am Aelodau ac yn cynnal neu oruchwylio ymchwiliadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod. |
| Yr Awdurdod Tân Awdurdod Tân | Mae'n ymgymryd â gwaith manwl sy'n gysylltiedig â phroses cynllunio a phennu cyllidebau'r Awdurdod. Mae'n cyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol sydd yn ei dro'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella/lleihau risg/amcanion llesiant i'r Awdurdod. |

Tudalen 7

| | |
|---|---|
| Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Mae'n gosod safonau llywodraethiant ar draws y Gwasanaeth ac yn arwain y gwaith o'u gweithredu. Mae'n cael y cynllun gwella blynyddol ac yn cyfrannu at yr hunanasesiad blynyddol. |
| Swyddog Adran 151 | Mae'n sicrhau bod penderfyniadau'n gyfreithlon ac yn ddarbodus yn ariannol.<br>Mae'n gweinyddu materion ariannol.<br>Mae'n atebol am ddatblygu a chynnal fframwaith llywodraethiant, risg a rheolaeth yr Awdurdod Tân.<br>Mae'n cyfrannu at reoli a llywodraethiant corfforaethol effeithiol yr Awdurdod Tân. |
| Swyddog Monitro | Mae'n adrodd ar achosion o fynd yn groes i unrhyw ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith. Mae'n adrodd ar unrhyw gamweinyddu neu anghyfiawnder pan fo'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol wedi cynnal ymchwiliad.<br>Mae'n cynnal a diweddaru'r Cyfansoddiad.<br>Mae'n cynnal cofrestrau o fuddiannau aelodau yn ogystal â rhoddion a lletygarwch. Mae'n cynghori Aelodau ar sut i ddehongli'r Cod Ymddygiad. |
| Archwilio Mewnol | Mae'n darparu sicrwydd annibynnol a barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yr Awdurdod Tân.<br>Mae'n cyflawni rhaglen flynyddol o weithgarwch archwilio ar sail risg, gan gynnwys gweithgarwch gwrth-dwyll ac ymchwilio.<br>Mae'n gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau mewn rheoli risg. |
| Archwilio Allanol | Mae'n darparu sicrwydd annibynnol i'r Awdurdod Tân ar adrodd ariannol, trefniadau llywodraethiant a defnyddio adnoddau, gan gynnwys barn ar y datganiad o gyfrifon blynyddol a dod i gasgliad ynglŷn â gwerth am arian.<br>Mae'n ymgymryd â gweithgarwch archwilio statudol yn unol â Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan gynnwys ystyried trefniadau'r Gwasanaeth ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.<br>Mae'n nodi ac yn adrodd materion llywodraethiant, ariannol neu werth am arian arwyddocaol, ac yn gwneud argymhellion i gefnogi gwelliant ac atebolrwydd. |

## Egwyddorion CIPFA - Sicrwydd Llywodraethiant

### **Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.**

Cyhoeddir Cenadaethau a Gwerthoedd yr Awdurdod o fewn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) ac ar wefan yr Awdurdod, gan ddarparu fframwaith a rennir sy'n sail i brosesau gwneud penderfyniadau, ymddygiad a diwylliant sefydliadol.

Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu cefnogi gan fframwaith cyfansoddiadol cadarn. Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub, ei Bwyllgorau a'i Swyddogion, gan gynnwys y

Cynllun Dirprwyo i Swyddogion. Mae'r Swyddog Monitro yn cefnogi cydymffurfiaeth â'r Cyfansoddiad ac yn rhoi sicrwydd y gwneir penderfyniadau yn briodol, ac yn gyfreithlon. Pan fo angen, ceisir cyngor cyfreithiol i lywio prosesau gwneud penderfyniadau a rheoli risg gyfreithiol. Mae'r Cyfansoddiad hefyd yn ymgorffori'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, sy'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau, gan atgyfnerthu arweinyddiaeth ac atebolrwydd moesegol.

Er mwyn cefnogi tryloywder ac atal gwrthdaro buddiannau, datgan buddiannau personol a busnes a chofnodi rhoddion a lletygarwch os oes angen. Mae cofrestrau'n cael eu cynnal a'u cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod, gan alluogi goruchwyliaeth gyhoeddus ac atebolrwydd cyhoeddus.

Atgyfnerthir llywodraethiant moesegol ymhellach trwy bolisïau. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi Chwythu'r Chwiban, Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth, Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Contractau. Pan nodir pryderon neu afreoleidd-dra, mae trefniadau clir ar waith i sicrhau bod materion yn cael eu hymchwilio'n drylwyr ac yn briodol. Mae Safecall, gwasanaeth adrodd cyfrinachol, annibynnol sy'n gweithredu 24/7, yn cefnogi diwylliant lle gellir codi pryderon yn ddiogel, gan gynnwys yn ddienw lle bo hynny'n briodol.

Ochr yn ochr â rheolaethau ffurfiol, mae'r Awdurdod yn ceisio ymgorffori gwerthoedd moesegol trwy ei drefniadau rheoli pobl. Mae prosesau recriwtio, cynefino a hyfforddi yn pwysleisio ymddygiadau disgwyliedig a chysondeb â gwerthoedd craidd.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan allweddol o fframwaith moesegol yr Awdurdod. Goruchwylir llywodraethiant trwy'r Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a sefydlwyd yn 2022, a thrwy Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-2029 bum mlynedd a gyhoeddwyd. Mae gweithredu'r Strategaeth yn cael ei arwain gan gynllun gweithredu blynyddol manwl y mae ei berfformiad yn cael ei reoli a'i adolygu bob chwarter, ac mae'n ymgorffori monitro Siarter Hawliau Dynol Ewrop (EHCR) newydd, sy'n darparu sicrwydd bod ystyriaethau cydraddoldeb wedi'u hymgorffori mewn llywodraethiant a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnal trefniadau cadarn i gynnal safonau proffesiynol a mynd i'r afael â chamymddwyn. Rheolir achosion o ddisgyblu a honiadau o gamymddwyn yn unol â pholisi a gweithdrefnau Disgyblu'r Gwasanaeth, gyda dau Swyddog Disgyblaeth a Chwynion Cyflogaeth wedi'u neilltuo yn sicrhau bod materion yn cael eu trin yn brydlon, yn gyson ac yn broffesiynol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymraeg fel rhan annatod o gyflwyno'r gwasanaethau mewn modd

moesegol a chyfreithlon. Dangosir cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg drwy gyhoeddi Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 2024-25 ar wefan yr Awdurdod. Yn ogystal, cefnogir gallu'r gweithlu gan ofynion i bob gweithiwr newydd gyflawni o leiaf sgiliau Cymraeg Lefel 2, gan symud ymlaen i Lefel 3 ar ôl dyrchafiad.

Cefnogir gosod a chyflawni amcanion moesegol, cyfreithlon drwy'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29, sy'n nodi Amcanion Gwella ac Amcanion Llesiant yr Awdurdod. Mae'r Cynllun wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd a budd-ddeiliaid, gyda'r Cynllun pum mlynedd wedi'i gadarnhau a'r Cynllun Gweithredu 2026-27 wedi'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei adlewyrchu ymhellach ar draws cynlluniau a pholisïau adrannol lle bo hynny'n berthnasol.

Defnyddir polisïau a gweithdrefnau clir i fynd i'r afael â chyfrifoldebau diogelu er mwyn sicrhau bod unigolion agored i niwed y mae'r Gwasanaeth yn dod ar eu traws yn cael eu cyfeirio'n briodol at asiantaethau partner. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu goruchwylio gan Reolwr Diogelu wedi'i neilltuo, sy'n darparu goruchwyliaeth a sicrwydd arbenigol.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi mabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, gan adeiladu ar drefniadau sefydledig gyda chyrff cynrychioliadol staff cydnabyddedig i gefnogi ymgysylltu ar amcanion a phenderfyniadau strategol. Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'w gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ym mis Ebrill 2025, gan ddarparu sicrwydd allanol o gydymffurfiaeth â gofynion statudol.

Yn dilyn cyhoeddi adolygiad annibynnol o ddiwylliant Crest Advisory ym mis Ionawr 2025, cryfhaodd yr Awdurdod ei drefniadau llywodraethiant ymhellach trwy sefydlu Bwrdd Diwylliant a phenodi hyrwyddwyr diwylliant pwrpasol. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi goruchwylio a chyflawni camau gwella diwylliant y cytunwyd arnynt.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei argymhellion mewn perthynas ag arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol, ac mae'r ystyriaethau hyn yn parhau i lywio fframwaith llywodraethiant a sicrwydd parhaus yr Awdurdod.

## Egwyddor B: Sicrhau ein bod yn agored a bod gennym ymgysylltiad cynhwysfawr â budd-ddeiliaid.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dryloywder, ymgysylltu ystyrlon a bod yn agored, fel rhan greiddiol o'i fframwaith llywodraethiant. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgor yn cael eu hysbysebu'n gyhoeddus, gydag agendâu

a phapurau ategol yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod Llawn yn cael eu gweddarlledu, gan alluogi mynediad i'r cyhoedd at brosesau gwneud penderfyniadau a chraffu.

Cefnogir tryloywder ymhellach drwy Gynllun Cyhoeddi'r Awdurdod, gyda gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar y wefan. Mae dogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gyda fersiynau Darllen/Siarad yn cael eu darparu lle bo hynny'n briodol i gefnogi hygyrchedd a chynhwysiant.

Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid wedi'i ymgorffori mewn prosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig lle mae newid sylweddol yn cael ei gynnig. Mae trefniadau ymgynghori cyhoeddus ar waith i wahodd barn cyn i newidiadau allweddol gael eu datblygu a'u gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori ar yr amcanion sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026-27, a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2025. Adolygwyd ymatebion i'r ymgynghoriad yn unol ag Egwyddorion Gunning i sicrhau bod ymgysylltu yn ystyrlon, yn deg ac yn dryloyw. Cyflwynwyd adroddiad i'r Awdurdod yn crynhoi'r adborth a dderbyniwyd ac yn esbonio sut y llywiodd y cynllun terfynol. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn hefyd ac, ochr yn ochr â chanfyddiadau'r ymgynghoriad, cafodd ei ystyried gan yr Awdurdod cyn cymeradwyo'r cynllun.

Mae'r Sefydliad Ymgynghori wedi cydnabod yn y gorffennol bod gan yr Awdurdod 'Arfer Da', gan gynnwys ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r Adolygiad parhaus o'r Ddarpariaeth Frys. Mae hyn yn darparu sicrwydd annibynnol mewn perthynas ag ansawdd a chadernid trefniadau ymgysylltu.

Mae bod yn agored ac ymgysylltu hefyd yn cael eu cefnogi trwy ystod ehangach o drefniadau llywodraethiant a chyfathrebu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cwblhau asesiadau effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol,
- Gweithdrefn Cwynion a Chanmol sy'n darparu llwybrau uwchgyfeirio clir ar gyfer materion arwyddocaol i achwynwyr allanol, a pholisi a gweithdrefn cwynion cyflogaeth ar gyfer cwynion mewnol.
- Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd sy'n llywio arfer cyson.

Mae'r Awdurdod hefyd yn ymgysylltu â Chyrff Cynrychioliadol Gweithwyr cydnabyddedig drwy drefniadau anffurfiol a strwythurau ffurfiol, gan gynnwys y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi, ac mae'r trefniadau hyn yn cael eu cryfhau ymhellach drwy fabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

Mae ymgysylltu'n rheolaidd â staff hefyd yn cael ei gefnogi drwy arolwg staff 'Teulu Tân' bob dwy flynedd. Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o rwydweithiau a fforymau allanol, gan gynnwys

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Fforwm Arweinwyr Cydraddoldeb Gogledd Cymru, Cyngor Hil Cymru a Fforwm Rhyng-Ffydd Gogledd Cymru.

Defnyddir ystod eang a chynhwysol o ddulliau ymgysylltu i gyrraedd cymunedau, staff a budd-ddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys cyfathrebu cyfeiriedig trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, gan gynnwys Facebook ac X, ochr yn ochr â chyfrifon gorsafoedd tân a reolir yn lleol i gefnogi ymgysylltu o fewn cymunedau. Gall budd-ddeiliaid gofrestru ar wefan yr Awdurdod i gael diweddariadau e-bost ar faterion penodol. Cefnogir gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy raglenni megis Ffenics, Cadetiaid Tân ac ymweliadau ag ysgolion, ochr yn ochr â gwaith diogelwch cymunedol gyda deiliaid tai a busnesau.

Mae ymgysylltu wedi'i dargedu hefyd yn cefnogi gweithgarwch recriwtio ac atal cynhwysol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau wedi'u cydgysylltu drwy Grŵp Gweithredu Cadarnhaol, gyda'r Rheolwr Datblygu Sefydliadol yn gadeirydd, yn ogystal â mynd i ddiwrnodau agored a digwyddiadau cymunedol, megis yr Eisteddfod a digwyddiadau a arweinir gan orsafoedd tân.

Cefnogir cyfathrebu mewnol drwy'r cylchlythyr electronig Crynodeb Wythnosol i staff, ac mae ymgyrchoedd cyfathrebu allanol yn cael eu harwain gan Reolwyr Diogelwch Cymunedol.

Trwy weithgareddau Atal a Recriwtio, mae'r Gwasanaeth yn ymgysylltu â phobl o bob oedran ac o gefndiroedd amrywiol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth gefnogi bod yn agored, rhannu atebolrwydd a chyflwyno'r gwasanaethau mewn modd effeithiol. Mae trefniadau partneriaeth ar waith ar draws ystod o fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys Cymru Gyfan, Fforymau Gwydnwch Lleol, y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Strategol Lleihau Tanau Bwriadol, a Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Oedolion a Phlant, ochr yn ochr â chydweithio â gwasanaethau brys eraill.

Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio effeithiol ac atebolrwydd clir. Mae'r egwyddorion hyn yn parhau i fod yn sail i fframwaith llywodraethiant, trefniadau ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth yr Awdurdod.

## Egwyddor C: Diffinio canlyniadau o ran buddion cynaliadwy economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r Awdurdod yn diffinio ei ganlyniadau strategol trwy fframwaith cynllunio clir a hirdymor. Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) pum mlynedd yn pennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod ac yn nodi Amcanion Gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ochr yn ochr ag Amcanion

Llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gyda'i gilydd, mae'r amcanion hyn yn darparu datganiad clir o'r canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a fwriadwyd i'w cyflawni.

Mae polisïau a threfniadau gwneud penderfyniadau'r Awdurdod yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan sicrhau bod effeithiau hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogiad yn cael eu hystyried wrth osod blaenoriaethau a phenderfynu sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno. Mae'r holl strategaethau, cynlluniau a pholisïau perthnasol yn cyd-fynd â'r dull hwn.

Wrth ddiffinio a chyflawni ei ganlyniadau, mae'r Awdurdod hefyd yn ystyried ei gyfrifoldebau amgylcheddol o dan ddeddfwriaeth ehangach Cymru, gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r dyletswyddau hyn wedi'u hadlewyrchu o fewn trefniadau llywodraethiant, cynllunio a sicrwydd, gan gefnogi rheoli adnoddau yn gynaliadwy a stiwardiaeth amgylcheddol.

Mae cynaliadwyedd ariannol yn sail i allu'r Awdurdod i gyflawni canlyniadau hirdymor. Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd a diweddarwyd y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod 2026–30, gan gefnogi cynllunio ariannol hirdymor a llywio gwneud penderfyniadau fel rhan o fframwaith llywodraethiant a sicrwydd yr Awdurdod. Nod y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, sy'n cynnwys Cynllun Cyfalaf deng mlynedd, ochr yn ochr â'r broses pennu cyllideb flynyddol, yw sicrhau bod adnoddau ariannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau a chanlyniadau a fwriadwyd yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod canlyniadau cynaliadwy yn dibynnu ar gyfrifoldeb cymdeithasol, tegwch a llesiant y gweithlu. Mae e-ddysgu gorfodol mewn perthynas â'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i gael ei gwblhau gan yr holl staff. Fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i recriwtio a chadw pobl anabl a'r sawl sydd â chyflyrau iechyd, ac mae wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi'i ategu gan Bolisi Lluoedd Arfog, Milwyr Wrth Gefn a Chyn-filwyr, er mwyn sicrhau triniaeth deg i'r sawl sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'u teuluoedd. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn talu mwy na'r cyflog byw gwirioneddol, gan gefnogi cyflog teg a sefydlogrwydd y gweithlu.

Mae trefniadau diogelu yn elfen arall o ymrwymiad yr Awdurdod i gynaliadwyedd cymdeithasol. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu clir ar waith er mwyn sicrhau bod unigolion agored i niwed y mae'r Gwasanaeth yn dod ar eu traws yn cael eu cyfeirio'n briodol at asiantaethau partner. Mae diogelu'r gweithlu a'r cyhoedd yn cael ei gefnogi ymhellach trwy drefniadau

cadarn gwirio cofnodion troseddol. Yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth, rhestrir Awdurdodau Tân ac Achub yn Atodlen 1 i Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau), sy'n galluogi pob gweithiwr i fod yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, lefel Safonol o leiaf, wedi'i adnewyddu bob tair blynedd.

Er mwyn cryfhau trefniadau Diogelu ymhellach, mae'r awdurdod wedi gweithredu polisi atal aflonyddu rhywiol, ac mae asesiadau risg wedi'u cynnal ar gyfer pob adran. Mae'r rhain yn cael eu monitro gan y Rheolwr Diogelu, gan weithio gyda'r adran Adnoddau Dynol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cynnal trefniadau parhad busnes i gefnogi gwydnwch sefydliadol a pharhad gwasanaethau. Fel rhan o'i ddyletswyddau statudol, mae cynlluniau parhad busnes ar waith ar draws y Gwasanaeth ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae cydweithio parhaus â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân yn cefnogi gwelliant parhaus mewn cynllunio ac ystyried risgiau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n esblygu.

Er mwyn sicrhau bod canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu hasesu'n gyfannol, cefnogir penderfyniadau allweddol gan asesiad effaith integredig. Mae hyn yn ystyried goblygiadau cydraddoldeb, diogelu data, iechyd, diogelwch a llesiant, y Gymraeg, cyllid, cynaliadwyedd a'r gweithlu, ochr yn ochr â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r dyletswyddau iechyd statudol a ragwelir.

Mae Strategaeth Amgylcheddol yr Awdurdod yn cryfhau cynaliadwyedd amgylcheddol ymhellach, ac yn nodi targedau perfformiad clir a mesuradwy i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol arwyddocaol eraill. Mae cynnydd yn cael ei fonitro drwy drefniadau llywodraethiant, ac mae'r Awdurdod yn adrodd ar ei ddyletswyddau bioamrywiaeth trwy Adroddiadau Bioamrywiaeth rheolaidd, gan ddarparu tryloywder a sicrwydd ynghylch sut mae mynd i’r afael ag ystyriaethau amgylcheddol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.

Mae ystyriaethau cynaliadwyedd wedi'u hymgorffori o fewn fframwaith llywodraethiant ehangach yr Awdurdod, gan gynnwys Rheolau’r Weithdrefn Contractau, sy'n gofyn am ystyried buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth ymgymryd â gweithgarwch caffael perthnasol, gan gefnogi gwerth am arian a chanlyniadau cymunedol ehangach.

Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd cryfhau gallu sefydliadol a chefnogi amcanion cynaliadwyedd a sero net. Mae'r ystyriaethau hyn wedi'u hintegreiddio'n llawn i drefniadau llywodraethiant, cynllunio strategol

a dyrannu adnoddau'r Awdurdod, gan sicrhau bod canlyniadau'n parhau i fod yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

## Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf.

Mae'r Awdurdod yn defnyddio cyfuniad o ymgynghori, rheoli perfformiad, rheoli risg a goruchwylio llywodraethiant i sicrhau bod ymyriadau'n amserol, yn gymesur ac yn cyd-fynd â chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o osod amcanion yr Awdurdod, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol. Mae hyn yn sicrhau bod amcanion yn cael eu llywio gan farn budd-ddeiliaid ac anghenion y gymuned cyn iddynt gael eu cwblhau a'u cyflawni.

Mae cynnydd yn erbyn amcanion blynyddol yn cael ei fonitro a'i asesu drwy gydol y flwyddyn, gydag asesiad ffurfiol o berfformiad yn cael ei gyhoeddi bob mis Hydref. Mae hyn yn darparu tryloywder ac yn galluogi'r Awdurdod i werthuso a yw canlyniadau'n cael eu cyflawni neu a oes angen ymyrraeth bellach.

Mae rheoli risg yn elfen graidd o ddull yr Awdurdod o benderfynu a blaenoriaethu ymyrraeth. Mae'r Polisi Rheoli Risg Strategol yn nodi'r broses ar gyfer nodi a rheoli risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion neu weithgareddau. Mae risgiau strategol yn cael eu hadolygu drwy gydol y flwyddyn drwy'r Pwyllgor Risg Strategol, gan sicrhau bod risgiau sy'n dod i'r amlwg a risgiau sy'n newid yn cael eu nodi, eu lliniaru a'u huwchgyfeirio'n briodol. Mae'r trefniadau hyn yn destun craffu mewnol ac archwilio allanol, gan roi sicrwydd dros eu heffeithiolrwydd.

Mae gwybodaeth perfformiad ac ariannol yn destun craffu strwythuredig drwy drefniadau llywodraethiant yr Awdurdod. Cyflwynir adroddiadau perfformiad ac ariannol i'r Awdurdod a'i bwyllgorau, ar ôl i'r Grŵp Gweithredol eu hystyried yn gyntaf. Mae Adroddiad Monitro Perfformiad chwarterol yn cael ei baratoi ar gyfer y Panel Gweithredol ac mae craffu gweithredol manylach yn digwydd drwy'r Bwrdd Perfformiad, lle mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn adolygu data sy'n ymwneud â'r galw i ddigwyddiadau, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac argaeledd adnoddau. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod materion yn cael eu nodi'n brydlon a bod camau cywiro neu liniaru priodol yn cael eu cytuno.

Mae ymyrraeth effeithiol hefyd yn cael ei chefnogi trwy lywodraethiant ariannol cadarn. Mae prosesau cynllunio'r gyllideb, sy'n cynnwys arweinwyr y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod, wedi'u cynllunio i sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd ag amcanion sy'n seiliedig ar risg, wrth gydbwyso'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â chynnal ystadau, cerbydau ac offer. Mae Pwyllgor y Gyllideb, Monitro a Chaffael yn darparu goruchwyliaeth strategol a llywodraethiant ar gyfer y trefniadau hyn.

Mae dysgu gweithredol a lliniaru risg yn cael eu goruchwylio drwy'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol, sy'n darparu goruchwyliaeth llywodraethiant o Ganllawiau Gweithredol Cenedlaethol, Dysgu Gweithredol Cenedlaethol a Dysgu Sefydliadol ar y Cyd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio'r gwaith o gasglu a rheoli Gwybodaeth Risg Penodol i Safle ac yn monitro gweithgarwch sy'n ymwneud â risgiau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys gwaith mynd i'r afael â'r risg o dân o dechnolegau newydd drwy'r gweithgor System Storio Ynni Batri (Ïon Lithiwm).

Gan gydnabod graddfa a chymhlethdod nifer o fentrau newid arwyddocaol, adolygodd y Gwasanaeth ei ddull o reoli rhaglenni a phrosiectau yn ystod y flwyddyn a nodi'r angen i gryfhau trefniadau'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau (PMO). Mae cynlluniau wedi'u rhoi ar waith i ddatblygu gallu Swyddfa Rheoli Rhaglenni ymhellach yn ystod 2026–27, gan wella goruchwyliaeth, cydgysylltu, adrodd a rheoli risg ar gyfer rhaglenni a phrosiectau arwyddocaol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau llywodraethiant sy'n cefnogi gwaith megis adolygu trefniadau darpariaeth frys ledled Gogledd Cymru, adolygu systemau rota, a phrosiectau gweithredu a mudo systemau mawr.

Mae ystyriaethau iechyd, diogelwch a llesiant hefyd yn llywio trefniadau ymyrraeth a sicrwydd. Mae digwyddiadau iechyd a diogelwch yn cael eu hadrodd, eu hadolygu a'u monitro er mwyn sicrhau bod risgiau i staff yn cael eu nodi a'u lliniaru, gyda goruchwyliaeth strategol yn cael ei darparu gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant.

Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn monitro cyflawni yn erbyn ymrwymiadau cenedlaethol a rennir. Mae Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan yn nodi saith ymrwymiad lefel uchel sy'n ymwneud ag atal ac ymateb i danau mewn anheddau, gyda pherfformiad yn cael ei adrodd yn flynyddol fel rhan o Asesiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod.

Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd trefniadau cadarn ar gyfer nodi, gwerthuso ac ymateb i risg. Felly, mae rheoli risg a goruchwyliaeth perfformiad yn parhau i fod yn ganolog i fframwaith llywodraethiant a gwneud penderfyniadau'r Awdurdod, gan gefnogi ymyrraeth effeithiol a chyflawni canlyniadau a fwriadwyd.

## Egwyddor E: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan o hynny.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod llywodraethiant effeithiol yn dibynnu ar arweinyddiaeth glir, gallu sefydliadol a gweithlu medrus. Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn diffinio rolau priodol Aelodau etholedig a Swyddogion dynodedig, gan ddarparu eglurder ynghylch cyfrifoldebau, atebolrwydd ac amcanion. Mae swyddi statudol dynodedig yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y

Trysorydd a'r Swyddog Monitro, gan sicrhau arweinyddiaeth broffesiynol a goruchwyliaeth statudol briodol.

Mae cydweithio rhanbarthol a chenedlaethol yn cryfhau gallu sefydliadol ymhellach. Mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o drefniadau ar y cyd, gan gynnwys y Fforwm Hyfforddiant ar Ymchwilio i Danau ar gyfer Cymru Gyfan, sy'n cefnogi dysgu ar y cyd, safonau proffesiynol a dull cyson ledled Cymru.

Mae'r Awdurdod wedi ysgrifennu a gweithredu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol GTA Cymru Gyfan 2025–2028, sy'n darparu fframwaith strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu ac sy'n sail i ymrwymiad yr Awdurdod i ddysgu gydol oes, cymhwysedd proffesiynol a gwydnwch sefydliadol. Mae'r dull strategol hwn o ddatblygu pobl yn cael ei ategu gan gydnabyddiaeth yr Awdurdod o gynlluniau prentisiaeth fel mecanwaith pwysig ar gyfer adeiladu capasiti a gallu yn y dyfodol. Yn ystod 2025–26, recriwtiwyd prentisiaid i rolau diffoddwyr tân a rolau anweithredol, gan gefnogi cynaliadwyedd y gweithlu, datblygu sgiliau a llwybrau talent ar draws y sefydliad.

Wrth gydnabod graddfa a chymhlethdod rhaglenni trawsnewid tymor hwy, gan gynnwys datblygu cyfleusterau hyfforddi diffoddwyr tân, mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu gallu rheoli prosiectau pwrpasol. Mae hyn yn cefnogi cyflwyno gwasanaethau yn effeithiol, goruchwylio llywodraethiant a dysgu sefydliadol mewn perthynas â rhaglenni newid arwyddocaol.

Cefnogir gallu sylfaenol trwy drefniadau cynefino strwythuredig ar gyfer Aelodau a gweithwyr. Mae prosesau cynefino yn cyflwyno gwerthoedd craidd y sefydliad, safonau ymddygiad disgwyliedig a gofynion rôl, gan sicrhau dealltwriaeth gyson o gyfrifoldebau o'r cychwyn cyntaf.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnal iechyd a llesiant y gweithlu fel elfen allweddol o allu sefydliadol. Darperir cymorth iechyd a llesiant drwy ystod o fesurau, gan gynnwys polisïau a chanllawiau AD, trefniadau gweithio hyblyg, mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol a rhaglen cymorth gweithwyr. Darperir goruchwyliaeth strategol o'r trefniadau hyn gan y Pwyllgor Datblygu Pobl a Sefydliadol a'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant.

Mae dysgu, hyfforddiant a chymhwysedd proffesiynol yn cael eu cefnogi gan adran hyfforddi bwrpasol a fframweithiau cymhwysedd sefydledig ar gyfer staff gweithredol. Darperir hyfforddiant drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys modiwlau e-ddysgu gorfodol ar gyfer meysydd pwnc allweddol megis diogelu data. Darperir goruchwyliaeth llywodraethiant o drefniadau dysgu a datblygu gan y Pwyllgor Dysgu Sefydliadol, gan sicrhau cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol a risgiau sefydliadol a nodwyd.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd yr Awdurdod Strategaeth Hyfforddi tair blynedd newydd, sy'n cefnogi datblygiad parhaus gallu'r gweithlu, capasiti arweinyddiaeth a chymhwysedd sefydliadol fel rhan o fframwaith

llywodraethiant a sicrwydd yr Awdurdod. Yn ogystal, yn ystod 2025–26, parhaodd yr Awdurdod i fuddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel o'r sefydliad, gyda staff yn cymryd rhan mewn rhaglenni goruchwylio a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer rheolwyr canol ac uwch arweinwyr. Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi gallu arweinyddiaeth, cymhwysedd rheoli a gwydnwch sefydliadol.

Mae gallu arweinyddiaeth weithredol hefyd wedi'i gryfhau trwy barhau i ddatblygu sgiliau rheoli digwyddiadau. Cymerodd staff ran mewn hyfforddiant rheoli digwyddiadau Aur, Arian ac Efydd, gan gefnogi arweinyddiaeth effeithiol, gwydnwch rheoli digwyddiadau a gwneud penderfyniadau diogel mewn perthynas â digwyddiadau. Yn fwy cyffredinol, nodir anghenion datblygu gweithwyr trwy broses arfarnu, a nodir datblygu sefydliadol trwy broses Dadansoddi Anghenion Hyfforddi blynyddol. Mae'r Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant strwythuredig sy'n cyd-fynd â Lefelau Rheoli Digwyddiadau 1–4 i gefnogi rheoli digwyddiadau mewn modd hyderus, effeithiol mewn cyd-destunau gweithredol a strategol.

Mae safonau proffesiynol yn cael eu hatgyfnerthu trwy aelodaeth o gyrff proffesiynol perthnasol a'r gofyniad am ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae prosesau dyrchafu yn cyd-fynd â Fframwaith Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC), gan gefnogi cysondeb, tegwch a chyd-fynd â disgwyliadau cenedlaethol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod gwerth sicrwydd annibynnol a chyngor proffesiynol wrth gryfhau gallu sefydliadol. Yn ystod 2025–26, roedd hyn yn cynnwys sicrwydd a chyngor cefnogol gan Mersey Internal Audit Agency (MIAA) i lywio gweithgarwch gwella a chefnogi llywodraethiant effeithiol.

Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod rheoli pobl yn effeithiol, datblygu arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol cadarnhaol yn sylfaenol i lywodraethiant da. Mae'r egwyddorion hyn yn parhau i fod yn sail i ddull yr Awdurdod o gynllunio'r gweithlu, dysgu a datblygu sefydliadol.

## Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

Mae'r Awdurdod yn cynnal fframwaith cynhwysfawr o reolaeth a sicrwydd mewnol i gefnogi rheoli risg yn effeithiol, stiwardiaeth ariannol a gwneud penderfyniadau. Y Trysorydd sydd â chyfrifoldeb statudol dros weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol, yn unol ag Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972, ac mae'r Swyddog Monitro yn darparu sicrwydd bod yr Awdurdod yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a gofynion rheoleiddiol sefydledig.

Mae'r Polisi Rheoli Risg Strategol yn nodi dull strwythuredig o nodi, asesu a rheoli risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion. Mae cofrestr risg

gorfforaethol yn cael ei chynnal gan yr Adran Cynllunio Corfforaethol a'i hadolygu drwy gydol y flwyddyn gan y Pwyllgor Risg Strategol i sicrhau bod risgiau'n cael eu monitro, eu lliniaru a'u huwchgyfeirio'n briodol lle bo angen.

Cefnogir gwneud penderfyniadau gan drefniadau adrodd a sicrwydd cynhwysfawr. Cyflwynir asesiad effaith integredig ochr yn ochr ag adroddiadau a gyflwynir i'r Awdurdod a'i Bwyllgorau, sy'n galluogi Aelodau i ystyried goblygiadau cyfreithiol, ariannol, cydraddoldeb, llesiant, cynaliadwyedd a gweithredol wrth wneud penderfyniadau. Mae trefniadau parhad busnes hefyd ar waith i sicrhau y gellir parhau i gyflwyno gwasanaethau hanfodol mewn achosion o darfu. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn cynnal gwydnwch sefydliadol.

Mae craffu a sicrwydd annibynnol yn rhan ganolog o fframwaith rheolaeth fewnol yr Awdurdod. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwylio trefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan sicrhau bod argymhellion ar gyfer gwella sy'n deillio o Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru ac arolygiadau neu reoleiddwyr allanol eraill yn cael eu hystyried, eu cytuno a'u monitro hyd nes eu bod wedi'u cwblhau. Rhoddir adroddiadau chwarterol i Aelodau ac uwch reolwyr am welliant a pherfformiad y Gwasanaeth yn erbyn dangosyddion perfformiad a cherrig milltir allweddol, gan gefnogi tryloywder a gwelliant parhaus.

Mae trefniadau ar waith i gadw cofrestrau o fuddiannau personol a busnes yr Aelodau a chofrestr o roddion a lletygarwch. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod. Mae polisïau ar gyfer Gwrth-dwyll a Llygredigaeth a Chwythu'r Chwiban yn atgyfnerthu ymhellach ymrwymiad yr Awdurdod i weithredu mewn modd teg, agored a thryloyw.
Mae Rheolau Gweithdrefn Contractau yr Awdurdod yn elfen allweddol o'r fframwaith rheolaeth fewnol ac yn cefnogi gweithgarwch caffael cyfreithlon, tryloyw ac atebol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith pellach i gryfhau cydymffurfiaeth â gofynion caffael ac i ymgorffori egwyddorion gweithio a phartneriaeth teg, gan gynnwys cyd-fynd â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, fel rhan o drefniadau llywodraethiant a sicrwydd ehangach yr Awdurdod.
Mae trefniadau llywodraethiant gwybodaeth yn cefnogi trin data yn ddiogel ac yn gyfreithlon. Mae'r polisïau sydd ar waith yn cynnwys y Polisi Diogelu Data, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth, y Polisi Cadw Data a'r Polisi Diogelu Cyfathrebu a Gwybodaeth. Cefnogir y trefniadau hyn gan hyfforddiant staff, gan gynnwys e-ddysgu diogelu data gorfodol ar gyfer pob gweithiwr, a phrotocolau rhannu gwybodaeth y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gyda sefydliadau partner.

Mae trefniadau rheoli ariannol yn cefnogi cyflwyno gwasanaethau a gweithredu newid trawsnewidiol, wrth sicrhau stiwardiaeth gadarn o adnoddau cyhoeddus. Cyflwynir diweddariad ariannol ym mhob cyfarfod yr Awdurdod, gydag adroddiadau ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan yr Awdurdod er mwyn cefnogi tryloywder.

Darperir gwasanaethau Archwilio Mewnol gan Mersey Internal Audit Agency (MIAA), sy'n darparu rhaglen o weithgareddau archwilio seiliedig ar risg a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio. Mae canlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol a wnaed yn ystod 2025–26, gan gynnwys archwiliadau sy'n ymwneud â rheoli asedau, wedi llywio asesiad yr Awdurdod o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn darparu barn annibynnol flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn, sy'n ffynhonnell allweddol o sicrwydd i'r Awdurdod. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, nododd datganiad barn y Pennaeth Archwilio Mewnol "Gellir rhoi sicrwydd sylweddol bod system dda o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y sefydliad, a bod y rheolaethau yn cael eu cymhwyso'n gyson yn gyffredinol". Bydd copi llawn o farn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Mae Archwilio Cymru yn darparu sicrwydd allanol drwy raglen o weithgareddau archwilio ariannol ac archwilio perfformiad. Mae hyn yn cynnwys archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifon yr Awdurdod, gwaith sy'n ymwneud â chydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, adolygiadau a gynhaliwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac asesu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau bod ei ddefnydd o adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r Aelodau yn cael adroddiadau am ganfyddiadau'r gwaith hwn sy'n cyfrannu at lunio trefniadau llywodraethu, perfformiad a gwella parhaus yr Awdurdod. Mae trefniadau Rheoli'r Trysorlys yn cael eu gweithredu yn unol ag arfer proffesiynol ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan yr Aelodau. Mae Datganiadau Cyfrifon yr Awdurdod a'i berfformiad yn erbyn meysydd risg a blaenoriaeth allweddol yn destun archwilio a chraffu allanol annibynnol.

Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd prosesau effeithiol ar gyfer nodi a gwerthuso risg. Felly, mae rheoli risg yn parhau i fod yn elfen ganolog o drefniadau llywodraethiant, rheolaeth fewnol a sicrwydd yr Awdurdod.

Yn ystod 2025–26, cwblhaodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod hefyd. Roedd yr adolygiad yn cydnabod bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol, a

bod sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn yn gymharol gryf. Nododd hefyd gyfleoedd i gryfhau cynlluniau ariannol tymor canolig a hirdymor, gwella'r defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn, adroddiadau ariannol i'r Aelodau, ac eglurder trefniadau goruchwylio ariannol. Mae'r Awdurdod wedi ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad hwn, ac wedi ymgorffori camau priodol yn ei drefniadau parhaus i gynllunio gwelliannau a llywodraethiant.

## Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dryloywder, craffu effeithiol a gwelliant parhaus, wedi'u hategu gan drefniadau adrodd a sicrwydd cadarn. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan weithio ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru benodi Crest Advisory i gynnal adolygiad annibynnol o ddiwylliant. Roedd hyn ar ôl i Lywodraeth Cymru dderbyn cynnig gan y ddau Wasanaeth, ym mis Mawrth 2024, i ddeall yn well y cynnydd o ran gwella diwylliant sefydliadol. Roedd y cynnig yn sail i ddatganiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pryd, Hannah Blythyn AS.

Cynhaliodd Crest Advisory yr adolygiad a chyhoeddi ei adroddiad o'r canfyddiadau ym mis Chwefror 2025, gan nodi 32 o argymhellion i gefnogi gwella diwylliannol. Mewn ymateb, a thrwy gydol 2025–26, cryfhaodd yr Awdurdod ei drefniadau llywodraethiant a sicrwydd trwy sefydlu Bwrdd Diwylliant pwrpasol. Dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân, mae'r Bwrdd yn dwyn ynghyd Aelodau'r Awdurdod, uwch swyddogion, hyrwyddwyr diwylliant a chynrychiolaeth allanol gan Lywodraeth Cymru. Mae Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub ac Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth yn aelodau o'r Bwrdd. Mae'r trefniadau hyn yn darparu craffu strwythuredig, herio allanol a sicrwydd dros gyflawni camau gwella diwylliannol y cytunwyd arnynt. Mae cynllun gwella strategol wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi, sy'n nodi sut y bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu a'u monitro.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Awdurdod, gyda chymorth y Swyddog Monitro, yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethiant a'i amgylchedd rheolaeth fewnol yn rheolaidd. Cynhelir cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn gyhoeddus, gydag agendâu a chofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod Llawn yn cael eu gweddarlledu, gan gefnogi bod yn agored a mynediad i'r cyhoedd at wneud penderfyniadau a chraffu. Mae adroddiadau a gyflwynir i'r Awdurdod yn dilyn fformat strwythuredig, gan sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno'n glir ac yn gyson i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gan gyhoeddi gwybodaeth yn unol â'i gynllun cyhoeddi ac ymateb yn briodol i geisiadau gan aelodau o'r cyhoedd. Cefnogir tryloywder cynllunio a pherfformiad ymhellach drwy gyhoeddi'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, sy'n nodi Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod ac sy'n destun adolygiad gan Archwilio Cymru mewn cysylltiad â chyhoeddi Tystysgrif Cydymffurfiaeth.

Cefnogir tryloywder ariannol ac atebolrwydd trwy gynhyrchu a chyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol yn amserol. Mae'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno mewn fformat clir, hawdd ei ddefnyddio, gan ddarparu gwybodaeth dryloyw am incwm, gwariant a stiwardiaeth arian cyhoeddus, ac fe'u cyflwynir i'w harchwilio yn unol â therfynau amser statudol. Mae'r Awdurdod hefyd yn cyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011, ac mae cyflogau Aelodau'n cael eu talu a'u hadrodd yn unol â phenderfyniadau a wneir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau tryloywder mewn perthynas â buddiannau a pherthnasoedd. Mae'n ofynnol i Aelodau ac uwch swyddogion ddatgan buddiannau perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU. Mae'r datganiadau hyn yn cefnogi nodi a datgelu trafodion partïon cysylltiedig lle bo angen.

Mae'r Awdurdod yn darparu tryloywder allanol drwy adrodd yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru. Cyflwynir adroddiadau bob mis Ionawr a mis Gorffennaf sy'n cynnwys manylion materion sy'n ymwneud â disgyblaeth, cwynion cyflogaeth a chwynion allanol, gan gynnwys achosion o gamymddwyn honedig neu gamymddwyn difrifol lle gall ymddygiadau godi pryderon am ddiwylliant a gwerthoedd sefydliadol.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ei hun yn chwarae rôl allweddol mewn atebolrwydd, gan ddarparu cyfrif tryloyw o drefniadau llywodraethiant yr Awdurdod, yr adolygiad o effeithiolrwydd llywodraethiant a chamau gwella llywodraethiant arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Darperir sicrwydd annibynnol trwy archwilio allanol a mewnol. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, a benodir drwy statud, yn rhoi barn ar Ddatganiad o Gyfrifon yr Awdurdod, a gyhoeddir ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn ymateb i argymhellion archwilio ac yn cymryd camau cywiro lle bo angen. Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu ar ddull sy'n seiliedig ar risg, gan ddarparu sicrwydd bod risgiau a rheolaethau allweddol yn cael eu rheoli'n effeithiol. Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau mewnol, penodwyd Archwilydd Mewnol newydd ym mis Mehefin 2023, a hynny er mwyn cryfhau'r trefniadau sicrwydd ymhellach. Mae prosesau hefyd ar waith

i sicrhau bod argymhellion gan gyrff arolygu a rheoleiddio yn cael eu holrhain a'u gweithredu.

Yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd atebolrwydd cryf, cydweithio effeithiol a chraffu cadarn. Mae'r egwyddorion hyn yn parhau i fod yn sail i ddull yr Awdurdod o ymdrin â thryloywder, adrodd a sicrwydd, gan gefnogi hyder gan y cyhoedd a llywodraethiant da.

**Casgliad**

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Awdurdod wedi adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethiant yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government', gan gynnwys y gofynion a'r disgwyliadau a nodir yn atodiad mis Mai 2025. Mae'r adolygiad hwn wedi ystyried gweithrediad fframwaith llywodraethiant yr Awdurdod, trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol, ochr yn ochr â sicrwydd sy'n deillio o archwilio mewnol ac allanol, adrodd ar berfformiad, gweithgarwch rheoleiddio ac ymgysylltu gweinidogol.

Mae'r adolygiad wedi tynnu ar ystod eang o ffynonellau sicrwydd, gan gynnwys gwaith y Pwyllgor Archwilio, canlyniadau'r Archwiliad Mewnol a gyflwynwyd gan Mersey Internal Audit Agency, sicrwydd allanol a ddarparwyd gan Archwilio Cymru, adrodd ar berfformiad a risg i Aelodau, a chanfyddiadau sy'n deillio o adolygiadau annibynnol, gan gynnwys adolygiad o ddiwylliant Crest Advisory. Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyllid, llywodraethiant, ymgynghori, cydraddoldeb, safonau'r Gymraeg a phartneriaeth gymdeithasol.

Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad bod ganddo fframwaith effeithiol o lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar waith sy'n gweithredu fel y bwriadwyd ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion. Mae'r trefniadau a ddisgrifir yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn yn dangos bod yr Awdurdod yn parhau i ymddwyn gydag uniondeb, yn parhau i fod yn agored ac yn atebol, yn rheoli risg a pherfformiad yn briodol, ac yn darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth effeithiol.

Mae'r adolygiad hefyd wedi nodi meysydd lle gellid cryfhau trefniadau llywodraethiant ymhellach. Yn benodol, yn ystod 2025–26 cydnabu'r Awdurdod yr angen i wella trefniadau llywodraethiant a sicrwydd mewn perthynas â diwylliant sefydliadol a goruchwyliaeth rhaglenni a phrosiectau arwyddocaol. Mewn ymateb, mae'r Awdurdod wedi cymryd camau rhagweithiol i gryfhau trefniadau, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Diwylliant yn dilyn adolygiad annibynnol Crest Advisory, a'r datblygiad pellach

arfaethedig o lywodraethiant rheoli rhaglenni a phrosiectau yn ystod 2026–27.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod y camau hyn yn cynrychioli ymatebion cymesur a phriodol ac mae wedi nodi camau gwella clir i gryfhau trefniadau llywodraethiant a sicrwydd ymhellach. Bydd y camau hyn yn cael eu monitro drwy fecanweithiau llywodraethiant presennol, gan gynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, y Pwyllgor Archwilio a'r Awdurdod ei hun, a bydd cynnydd yn cael ei adrodd fel rhan o fframwaith perfformiad a sicrwydd parhaus yr Awdurdod.

Gan ystyried hyn i gyd, mae'r Awdurdod o'r farn bod y trefniadau llywodraethiant a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn yn effeithiol, a bod cynlluniau priodol ar waith i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella ac i barhau i wella trefniadau llywodraethiant yn unol ag arferion da a disgwyliadau cenedlaethol.

## Sut aeth yr Awdurdod i'r afael â Chamau Gwella Llywodraethiant 2025/26

| Maes Gwella Llywodraethiant | Cam Gweithredu a Gynlluniwyd | Fforwm | Cyfrifoldeb | Cynnydd erbyn mis Ebrill 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Effeithiolrwydd Gweithgareddau Atal | Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o waith Atal. | Yr Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Atal a Diogelu | Yn ystod 2025-26, fe wnaeth yr Awdurdod ymateb i adolygiad Archwilio Cymru o weithgarwch atal drwy gryfhau llywodraethiant, goruchwyliaeth a sicrwydd, a bwrw ymlaen â newid tuag at fodel atal mwy targedig, sy'n cael ei arwain gan ddata ac sy'n ystyriol o risg, wedi'i ategu gan adrodd gwell ar berfformiad a chydweithio cenedlaethol. |
| Pennu'r Amcanion Llesiant | Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o bennu amcanion llesiant. | Bwrdd Gwella Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid | Yn ystod 2025-26, fe wnaeth yr Awdurdod gryfhau ei ddull o bennu amcanion llesiant trwy sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well â gweithgarwch partneriaid, gwella ystyriaethau cyfranogiad a chydraddoldeb, ac ymgorffori amcanion yn fwy eglur o fewn fframweithiau rheoli corfforaethol, ariannol a pherfformiad. Bydd gwaith pellach yn canolbwyntio ar sicrhau bod cyfraniadau partneriaeth a mesurau perfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn fwy eglur mewn cylchoedd cynllunio ac adrodd yn y dyfodol. |
| Rheoli Risg Strategol | Gweithredu argymhellion adolygiad yr Archwiliad Mewnol o Reolaethau Craidd Rheoli Risg | Bwrdd Gwella Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid | Canfu ailymweliad gan Mersey Internal Audit Agency yn ystod 2025-26 fod y Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd wrth gryfhau ei fframwaith rheoli risg, gan gynnwys cymeradwyo Strategaeth Rheoli Risg, rolau a chyfrifoldebau mwy eglur, gwell darpariaeth hyfforddiant a threfniadau llywodraethiant gwell. Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio gyda rhaglen glir o gamau gweithredu ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | waith, yn cael ei datblygu drwy drefniadau llywodraethiant sefydledig. |
| Diwylliant Sefydliadol | Ymateb i argymhellion adolygiad annibynnol o ddiwylliant CREST trwy ymgysylltu â staff a'r Awdurdod Tân ac Achub, gan arwain at gyhoeddi cynllun gwella. | Yr Awdurdod Tân ac Achub | Prif Swyddog Tân | Yn ystod 2025-26, datblygwyd Cynllun Gweithredu Diwylliant mewn ymateb i adolygiad Crest Advisory ac mae hwn yn cael ei weithredu trwy lywodraethiant cryfach, gyda chynnydd yn amodol ar adolygu ac adrodd rheolaidd trwy drefniadau goruchwylio mewnol ac allanol sefydledig. |
| Effeithiolrwydd Ymateb i Danau mewn Anheddau Domestig | Ymateb i argymhellion yn "Arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig", Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru | Yr Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid | Yn ystod 2025/26, cryfhawyd llywodraethiant holl adolygiadau thematig Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru drwy sefydlu grŵp goruchwylio pwrpasol, gyda llinellau adrodd clir, cynllun gweithredu cyfunol, a chydweithio Cymru gyfan gwell i gefnogi gweithredu a gwella mewn modd cyson. |
| Gwirio Cyflenwyr a Chanllawiau Gwrth-dwyll | Ymateb i argymhellion gan yr Archwilydd Mewnol mewn perthynas â rheolaethau prosesu | Pwyllgor Cyllid a Safonau | Pennaeth Cyllid | Mae gweithdrefnau gwirio cyflenwyr wedi'u cryfhau, gan gynnwys gwiriadau gwell cyn sefydlu a diweddaru cyflenwyr. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ariannol allweddol 2024/25 gan gynnwys gweithredu Gwirio Cyflenwyr, Canllawiau Gwrth-Dwyll ac Adolygiadau Rheolaidd o Fandadau Banc. | | | Mae canllawiau gwrth-dwyll wedi'u diweddaru, gyda phecyn e-ddysgu bellach yn fyw ac yn cael ei gyfathrebu i staff cyllid a chaffael perthnasol.<br>Mae rhaglen o adolygiadau cyfnodol o fanylion banc cyflenwyr wedi'i chyflwyno i leihau risg twyll.<br>Mae'r mandad banc wedi'i ddiweddaru. |

**Camau Gwella Llywodraethiant yr Awdurdod 2026/27**

| Maes Gwella Llywodraethiant | Cam Gweithredu a Gynlluniwyd | Fforwm | Cyfrifoldeb | I'w gwblhau erbyn |
|---|---|---|---|---|
| Cyd-fynd â gofynion Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg | Paratoi ar gyfer newidiadau posibl yn y dyfodol i drefniadau llywodraethiant yr Awdurdod Tân ac Achub, sy'n cyd-fynd â pholisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y Datganiad Ysgrifenedig ar Lywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub. | Yr Awdurdod Tân ac Achub | Prif Swyddog Tân a Chlerc yr Awdurdod Tân | 31 Mawrth 2027 |
| Gweithredu fframwaith cenedlaethol Tân ac Achub 2026 | Paratoi ar gyfer newidiadau posibl sy'n deillio o Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethiant, cynllunio a sicrwydd yn parhau i gyd-fynd â gofynion sy'n dod i'r amlwg. | Yr Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid | 31 Mawrth 2027 |
| Disgwyliadau'r Arolygiad Cenedlaethol | Cynnal parodrwydd sefydliadol ar gyfer gweithgareddau arolygu posibl, gan gynnwys adolygu trefniadau llywodraethiant, rheoli perfformiad a sicrwydd yn erbyn disgwyliadau | Yr Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid | 31 Mawrth 2027 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | arolygu Llywodraeth Cymru a chenedlaethol sy'n dod i'r amlwg. | | | |
| Halogyddion | Paratoi ar gyfer arolygiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar halogyddion, gan gynnwys adolygu a chryfhau rheolaethau, sicrwydd a threfniadau llywodraethiant perthnasol. | Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant | Pennaeth Gweithrediadau Technegol | 31 Mawrth 2027 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Cryfhau trefniadau llywodraethiant a sicrwydd ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol, gan sicrhau parhau i gydymffurfio â dyletswyddau statudol a bod yn barod am graffu ac arolygu allanol. | Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Prif Swyddog Tân | 31 Mawrth 2027 |
| Deddf Diogelwch Tân a Diogelwch Adeiladau (Cymru). | Paratoi ar gyfer newidiadau mewn deddfwriaeth diogelwch tân a diogelwch adeiladau ac ymateb iddynt, gan gynnwys gweithredu Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru), gan sicrhau bod trefniadau diogelu, llywodraethiant a sicrwydd yn parhau i fod yn effeithiol ac yn cyd-fynd. | Pwyllgor Atal, Diogelu a Pherfformiad | Pennaeth Atal a Diogelu | 31 Mawrth 2027 |
| Rheoli Prosiectau a Rhaglenni | Parhau i gryfhau llywodraethiant, goruchwyliaeth a rheolaethau mewnol mewn perthynas â rheoli rhaglenni a phrosiectau, gan sicrhau sicrwydd, adrodd a chyflawni mentrau newid allweddol yn effeithiol. | Pwyllgor Risg Strategol | Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid | 31 Mawrth 2027 |

## Cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol

Cynlluniwyd Cod Rheoli Ariannol CIPFA (Cod RhA CIPFA) i gefnogi arfer da ym maes rheoli ariannol ac i gynorthwyo'r Awdurdod i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Mae Cod RhA CIPFA felly'n gosod safonau rheoli ariannol i'r Awdurdod.

Mae'r Cod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a gefnogir gan safonau a datganiadau ymarfer penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ddarparu'r sylfaen gref i:

- Reoli cyllid yr Awdurdod yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
- Rheoli gwydnwch ariannol er mwyn ateb y galw a ragwelir am wasanaethau
- Rheoli cyllid pan fo newidiadau annisgwyl yn eu hamgylchiadau ariannol.

Rhaid i bob Awdurdod ddangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni.

Fel Swyddog Adran 151 mae gen i'r Cyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod) dros sicrhau cydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA.

Rwyf wedi cynnal asesiad llawn o gydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a gallaf gadarnhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod yn y mwyafrif o feysydd yn fy marn i.

**Signed** ________________________________________ (Swyddog Adran 151) 2026

# Barn Llywodraethiant a Chasgliad

Mae'r Awdurdod yn cydnabod mai llywodraethiant da sy'n gosod y sylfaen ar gyfer cyflwyno gwasanaethau o ansawdd da sy'n bodloni anghenion budd-ddeiliaid, ac sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r systemau llywodraethiant a'r monitro a oedd ar waith ar gyfer 2025-26 a'r camau a gymerwyd i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod trefniadau llywodraethiant priodol ar waith ac mae'n parhau i fod yn ymroddedig i wella'r rhain drwy weithredu'r cynllun gweithredu ar gyfer 2026-27.

**Signed** ______________________________ (Cadeirydd yr Awdurdod)

**Signed** ______________________________ (Prif Swyddog Tân) 2026

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**North Wales Fire and Rescue Authority**

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, PSTC** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Datganiad Cyfrifon Blynyddol 2025/26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon Archwiliedig ar gyfer 2025/26 yn ogystal ag Adroddiad Archwilio Cyfrifon ISA 260 Archwilio Cymru i'w hadolygu a'u cymeradwyo, yn dilyn y dirprwyad gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Gorffennaf 2026. Mae’r adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy’n bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cyflwynwyd drafft o’r Datganiad Cyfrifon i Archwilio Cymru ar 28 Mai 2026. Cwblhaodd Archwilio Cymru ei archwiliad ac mae'n bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar ôl cymeradwyo'r cyfrifon a llofnodi'r Llythyr Cynrychiolaeth.

3 Ar 20 Gorffennaf 2026, dirprwyodd yr Awdurdod Tân ac Achub awdurdod i'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Archwiliedig terfynol ar ôl cwblhau'r broses archwilio allanol.

4 Mae adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru ynghlwm yn Atodiad 2. Mae nifer fach o ddiwygiadau o ran datgelu a chyflwyniad wedi'u hymgorffori yn y Datganiad Cyfrifon terfynol, ynghyd ag un camddatganiad heb ei gywiro (£90k) sy'n ymwneud ag amseru cydnabyddiaeth gwariant. Nid yw Archwilio Cymru wedi nodi unrhyw bryderon sylweddol o ran llywodraethiant neu adrodd ariannol.

5 O dan y trefniadau diwygiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno arnynt, rhaid i'r Datganiad Cyfrifon Archwiliedig gael ei gymeradwyo erbyn 30 Medi 2026.

## ARGYMHELLION

6 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi'r sefyllfa a'r perfformiad alldro archwiliedig fel y manylir yn eu cylch yn Natganiad Cyfrifon 2025/26 (Atodiad 1);**
**ii) Nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 2);**
**iii) Cymeradwyo'r llythyr cynrychiolaeth arfaethedig (Atodiad 2); ac yn**
**iv) Cadarnhau'r argymhelliad i gymeradwyo Datganiad Cyfrifon terfynol 2025/26 wedi'i archwilio.**

## YSTYRIAETH GAN BWYLLGORAU ERAILL

7 Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2025/26 i'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol ar 15 Mehefin 2026 ac i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Gorffennaf 2026. Ers hynny, mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi dirprwyo'r awdurdod i gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig terfynol i'r Panel Gweithredol, yn dilyn craffu gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r ddirprwyaeth hon yn amodol ar sefyllfa lle nad oes diwygiadau pwysig yn deillio o'r broses archwilio.

## CEFNDIR

8 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi datganiad cyfrifon yn flynyddol. Mae'r amserlenni cyn Covid a ragnodir o fewn y Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad cyfrifon drafft gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mai, gyda dyddiad cau archwilio ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

9 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru, yn dilyn ymgynghoriad â Chymdeithas Trysoryddion Cymru ac Archwilio Cymru, y dylid paratoi'r datganiad cyfrifon drafft ar gyfer 2025/26 erbyn 30 Mehefin 2026 fan bellaf, ac y dylid archwilio'r datganiad cyfrifon erbyn 30 Medi 2026.

10 Ardystiwyd y Datganiad Cyfrifon drafft gan Drysorydd yr Awdurdod ar 28 Mai 2026 ac fe'i cyflwynwyd i Archwilio Cymru. Mae'r datganiad cyfrifon drafft wedi bod yn destun archwiliad allanol ac mae atodiad 1 yn cynnwys y fersiwn archwiliedig terfynol.

**GWYBODAETH**

**ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL**

11 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o berfformiad a sefyllfa ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

12 Wrth gyflawni'r gwaith archwilio, nid yw Archwilio Cymru yn ceisio darparu sicrwydd absoliwt. Yn hytrach, mae'n ystyried a oes materion arwyddocaol a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Pan nodir gwall neu gamddatganiad, bydd Archwilio Cymru yn ystyried a oes angen diwygio.

13 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod, gan gadarnhau bod y datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'u bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau deddfwriaethol a chyfrifyddu perthnasol. Mae'r adroddiad archwilio llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, ac mae'r materion canlynol wedi'u hamlygu.

14 Yn ystod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol 2025/26, nododd Archwilio Cymru nifer fach o ddiwygiadau y cytunodd y rheolwyr arnynt ac fe'u hymgorfforwyd yn y Datganiad Cyfrifon terfynol. Mae manylion y diwygiadau hyn wedi'u nodi yn adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru sy'n atodedig.

15 Canfuwyd un camddatganiad heb ei gywiro yn ystod yr archwiliad. Roedd yn ymwneud â rhagdalu anfonebau gwerth cyfanswm o £90k a ddylai fod wedi'u cynnwys yn 2025/26, er y bydd y gwariant yn cael ei wneud yn 2026/27. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn gamddatganiad o bwys.

16 Cafodd materion a godwyd gan y tîm archwilio eu datrys mewn cydweithrediad â swyddogion, gan arwain at set o ddatganiadau ariannol sy'n cydymffurfio'n llawn â'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. Mae cyllid ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei phennu bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad Cyfrifon yn unol â'r safonau rhagnodedig. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau y gall yr Awdurdod gyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod a'u hadrodd yn briodol i'r Aelodau. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwiliad Cyfrifon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2025-26

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2026



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 5 |
| Perthnasedd | 6 |
| Canfyddiadau Archwilio | 7 |
| Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol | 9 |
| Atodiad 1 – Risgiau archwilio a’r canlyniadau | 10 |
| Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed | 13 |
| Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig | 14 |
| Atodiad 4 – Llythyr sylwadau | 20 |
| Atodiad 5 – Argymhelliad | 23 |
| Ansawdd archwilio | 24 |
| Eich cefnogi chi | 25 |

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cyflwyniad



**Catherine Mealing-Jones**

Auditor General for Wales

Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd newydd ei benodi, mae'n bleser gennyf rannu fy Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon. Mae’r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o’ch adroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer 2025-26. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda’r Pennaeth Cyllid a Chaffael.

Mae fy nhîm wedi cwblhau y gwaith archwilio i raddau helaeth yn unol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio Mehefin 2026. Mae'r tasgau sy'n weddill yn cynnwys cynllunio ac adolygu parhaus.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddaru perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2025-26. Nid wyf wedi adnabod unrhyw risgiau archwilio newydd. Caiff fy ymateb i risgiau a adnabuwyd yn flaenorol ei nodi yn **Atodiad 1.**

Mae’n ofynnol i mi ddarparu barn pa un a yw’r cyfrifon wedi cael eu paratoi’n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Caiff fy marn archwilio arfaethedig a’r sail drosti ei hamlinellu ar dudalen 8.

Cyfrifoldeb y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, h.y. yr Awdurdod, yw mynd i’r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion a staff ATA Gogledd Cymru am eu cydweithrediad trwy gydol y broses archwilio sydd wedi bod yn amhrisiadwy i allu cwblhau’r archwiliad hwn yn effeithiol.

# Cipolwg ar eich archwiliad

Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon

Gweler **Atodiad 3**

Nid oes **materion arwyddocaol eraill** i'w nodi

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**

Mae **camddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon yr ydym yn dymuno eu dwyn i'ch sylw.

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**

Rydym wedi codi **1 argymhelliad** o ganlyniad i'n gwaith

Gweler **Atodiad 5**

Yn ddarostyngedig i beidio adnabod materion â pherthnasedd pellach rydym yn anelu at ardystio cyn y terfyn amser **30 Medi 2026**.

# Perthnasedd

Rwy'n defnyddio barn proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i adnabod a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith cyfrifyddu a'r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddaru perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy'n cynnwys materion sy'n mynd y tu hwnt i'm trothwy adrodd, a nodir isod.

**Perthnasedd**

Pennwyd lefel perthnasedd o 2% o wariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2025-26.

**ATA Gogledd Cymru**
**£1,061,000**
**Cronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân**
**£284,000**

**Trothwy adrodd (dibwys)**

Pennwyd y trothwy adrodd ar 5% o berthnasedd.

**ATA Gogledd Cymru**
**£53,000**
**Cronfa Pensiwn Diffoddwyr Tân**
**£14,000**

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

**Datgeliadau Cydnabyddiaeth Uwch Swyddogion**
£1,000

**Datgeliadau partïon cysylltiedig**
£10,000

# Canfyddiadau Archwilio

## Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifeg.

### Camddatganiadau heb eu cywiro

Isod rydym yn nodi'r camddatganiadau a nodwyd gennym yn y cyfrifon, sydd wedi'u trafod gyda'r rheolwyr ond sy'n parhau i fod heb eu cywiro. Gofynnwn i'r camddatganiadau hyn gael eu cywiro.

Os penderfynwch beidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau dros beidio â'u cywiro inni yn ysgrifenedig:

- Postiwyd £89,000 o nam ar asedau i'r CIES yn hytrach nag yn erbyn y Gronfa Ailbrisio. Byddai cywiro hyn yn cynyddu'r gwarged ac yn lleihau balans y Gronfa Ailbrisio. Oherwydd natur y cyfrifon hwn, nid yw hyn yn effeithio ar y Gronfa Gyffredinol.
- Cafodd £85,000 o wariant ei drin yn anghywir fel rhagdaliad ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai cywiro hyn yn lleihau balans y dyledwyr ac yn cynyddu gwariant yn 2025-26.

### Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 2**.

## Materion arwyddocaol eraill

Mae'r Safon Ryngwladol ar Archwilio 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i'ch goruchwyliaeth chi ar broses adrodd ariannol ATA Gogledd Cymru.

Nid chanfuwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwilid.

# Barn archwilio arfaethedig

## Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 3**.

## Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau ac ynddo rydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o'r wybodaeth hon yn ofynnol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad chi.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**. Mae ei gynnwys yn gyson â'n cais safonol am sylwadau.

# Argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhelliad yn ystod yr archwiliad, a nodir yn **Atodiad 5** ynghyd ag ymateb y rheolwyr i'r argymhelliad.

Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

# Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol

Mae prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, wedi eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol**

| | |
|---|---|
| **Arweinydd Ymgysylltu** | Kate Havard<br>Kate.Havard@archwilio.cymru |
| **Rheolwr Archwilio** | Carwyn Rees<br>Carwyn.Rees@archwilio.cymru |
| **Arweinydd Archwilio** | Kieran Vickery<br>Kieran.Vickery@archwilio.cymru |

## Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

# Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau

Mae fy Nghynllun Archwilio wedi nodi risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer archwiliad cyfrifon ATA Gogledd Cymru. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru'r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy o fewn yr archwiliad. Ni adnabuwyd risgiau archwilio ychwanegol ers hynny sydd angen eu dwyn i'ch sylw.

**Arddangosyn 2: Risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a chanlyniad**

| Risg archwilio | Gwaith a wnaed | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Risg o ddiystyru rheolaethau gan y rheolwyr**<br>Mae'r risg y bydd y rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y modd annisgwyl y gallai hyn ddigwydd, caiff ei ystyried yn risg sylweddol [ISA 240.32-33]. | Bu i'r tîm archwilio:<br>• brofi priodoldeb cofnodion cyfnodolyn ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu'r amcangyfrifon cyfrifyddu am ragfarn.<br>• • Ystyriwyd a oedd unrhyw drafodion y tu allan i gwrs busnes arferol | Ni nodwyd unrhyw achosion lle cafodd rheolaethau eu diystyru gan y rheolwyr yn ystod y gwaith archwilio. |

| | | |
|---|---|---|
| **Prisio rhwymedigaeth/ gormodd net cronfa bensiwn**<br>Mae'r amcangyfrifon o rwymedigaeth y gronfa bensiwn yn seiliedig ar ragdybiaethau, ac o ganlyniad mae lefel uchel o ansicrwydd yn y cyfrifiadau. Mae'r cyfrifiad hefyd yn sensitif i amodau economaidd ac effaith achosion cyfreithiol. | Bu i'r tîm archwilio:<br>• Werthuso cyfarwyddiadau a chymhwysedd yr actiwari, yn ogystal â chywirdeb y wybodaeth a ddarparwyd.<br>• Brofi cywirdeb rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol.<br>• Asesu rhesymoldeb y rhagdybiaethau ac effaith unrhyw achosion cyfreithiol ar y rhwymedigaeth net. | Ni nododd gwaith archwilio unrhyw faterion yn ymwneud â gwerthusiad rhwymedigaeth neu ormodd net cronfa bensiwn. |
| **Prisio tir ac adeiladau**<br>Mae gwerth tir ac adeiladau yn y fantolen yn un goddrychol a gall newid yn sylweddol oherwydd amodau economaidd a gofynion ailbrisio. | Bu i'r tîm archwilio:<br>• asesu'r gwaith a wnaed gan yr awdurdod i sicrhau nad yw gwerthoedd asedau wedi'u cam ddatgan yn sylweddol. | Ni nododd gwaith archwilio unrhyw faterion yn ymwneud â gwerthuso tir ac adeiladau. |

| | | |
|---|---|---|
| **Taliadau i uwch-swyddogion**<br>Mae diddordeb mawr yn parhau i fodoli ynghylch y taliadau a wneir i uwch-swyddogion, ac mae'r rhain yn sylweddol o ran eu natur.<br>Felly, mae perygl y gallai camgymeriadau gwerth isel yn y datgeliad arwain at gamddatganiad sylweddol. | Bu i'r tîm archwilio:<br>• Ddeall y newidiadau yn y tîm uwch-reoli yn ystod 2025-26.<br>• Gadarnhau fod y symiau a dalwyd yn gyson â'r dystiolaeth ac yn unol â'r polisi talu cymeradwy. | Ni nododd gwaith archwilio unrhyw faterion yn ymwneud â datgelu taliadau uwch-swyddogion. |
| **Datgeliadau partïon cysylltiedig**<br>. Mae risg uwch o gamddatganiad perthnasol oherwydd bod y datgeliadau hyn o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd ac yn cael eu hystyried yn berthnasol o ran natur. | Bu i'r tîm archwilio:<br>• Adolygu proses yr Awdurdod ar gyfer nodi perthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig.<br>• Cyflawni gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd â phartïon cysylltiedig.<br>• Sicrhau fod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â'r dystiolaeth ac yn unol â Chod Llywodraeth Leol. | Ni nododd y gwaith archwilio unrhyw faterion yn ymwneud â datgeliadau partïon cysylltiedig. |

# Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi‘u cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i’ch sylw yn ein tyb ni.

| Gwerth y cywiriad | Maes yn y cyfrifon | Eglurhad |
|---|---|---|
| £2,192,000 | **Nodyn 11 – Dosbarthiad Gwarediadau**<br>Ailddosbarthu'r symudiad mewn dibrisiant i ddangos gwerth asedau sydd wedi'u gwaredu.<br>Nid oes unrhyw effaith net ar y CIES na'r Fantolen. | I ddatgelu'n gywir ddibrisiant hanesyddol asedau a gafodd eu gwaredu yn ystod y flwyddyn. |
| £850,000 | **Nodyn 11 – Dosbarthu Namau**<br>Ailddosbarthu Namau oherwydd gwariant nad yw'n effeithio ar y gwerthusiad oherwydd dulliau gwerthuso a arweinir.<br>Nid oes unrhyw effaith net ar y CIES na'r Fantolen. | I ddatgelu’n gywir y symudiadau ar asedau yn ystod y flwyddyn |
| £177,000 - £2,133,000 | **Nodyn 30 – Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig**<br>Ailddosbarthiadau amrywiol rhwng llinellau o fewn y nodyn.<br>Nid oes unrhyw effaith net ar y CIES na'r Fantolen. | I adlewyrchu symudiadau mewn balansau pensiwn yn gywir, yn unol â chanfyddiadau actiwaraidd. |

# Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;
- Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant ac Ariannu, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu sylweddol.

Mae Cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad o Asedau Net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu sylweddol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU, fel y'u dehonglir a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd sylweddol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2026 ac o'u hincwm a'u gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben y diwrnod hwnnw; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU, fel y'u dehonglir

a’u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

**Sail dros y farn**

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 ‘Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig’. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o’m hadroddiad sy’n ymdrin â chyfrifoldebau’r archwilydd ar gyfer archwilio’r datganiadau ariannol.

Rwyf fi a’m staff yn annibynnol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’m harchwiliad o’r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (Financial Reporting Council), ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi’i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

**Casgliadau ynghylch y cysyniad o fusnes sy’n mynd rhagddo**

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i’r casgliad bod defnyddio’r sail cyfrifyddu ‘busnes sy’n mynd rhagddo’ wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi’i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amgylchiadau a allai, yn unigol neu ar y cyd, achosi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân i barhau i fabwysiadu’r sail cyfrifyddu ‘busnes sy’n mynd rhagddo’ am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o’r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i’w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau’r swyddog ariannol cyfrifol o ran y cysyniad o fusnes sy’n mynd rhagddo yn yr adrannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio’r datganiadau ariannol a’m hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy’n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd wedi’i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol neu sy’n cyd-fynd ag ef. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu’r wybodaeth arall ac, ac eithrio i’r graddau y nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd yn ei chylch.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â’r datganiadau ariannol neu â’r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw’n ymddangos fel pe bai’n cynnwys camddatganiad sylweddol fel arall. Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o’r fath neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, rwy'n dod i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26;

- mae’r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r canllawiau.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân a'i amgylchedd a

gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy’n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw’r datganiadau ariannol yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu.

## Cyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon a gynhwysir yn y Datganiad, y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy’n rhoi darlun gwir a theg ac sy’n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Awdurdod Tân ac Achub a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Tân ac Achub a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio’r datganiadau ariannol yn unol ag adran 13(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad

perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân sy'n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial twyll yn cofnodi dyddlyfrau anarferol.
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Awdurdod Tân ac Achub a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Awdurdod Tân ac Achub a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Tân ac Achub a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, a'r Pwyllgor Archwilio ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i’r afael â’r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw’r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu’n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso’r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy’n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau’r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau’n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Awdurdod Tân ac Achub a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy’n cyfathrebu gyda’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau’r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau’r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Llofnod
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

# Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

[Pennawd y corff a archwilir]

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

[Dyddiad]

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2025-26

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau'r rheolwyr

## Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU 2025-26; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;

- canlyniadau ein hasesiad ni o’r risg y gallai’r datganiadau ariannol fod wedi’u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni’n ymwybodol ohono ac sy’n effeithio ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac sy’n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai’r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy’n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi’r datganiadau ariannol;
- gwybodaeth am bwy yw’r holl bartïon cysylltiedig a’r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae’r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe’u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae’r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a’u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy’n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu’n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae’r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi’r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â’r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau heb eu cywiro a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol ac yn gyfan gwbl, i'r datganiadau ariannol cyfan. Nodir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

- Postiwyd £89,000 o nam ar asedau i'r CIES yn hytrach nag yn erbyn y Gronfa Ailbrisio. Byddai cywiro hyn yn cynyddu'r gwarged ac yn lleihau balans y Gronfa Ailbrisio. Oherwydd natur y trafodiad hwn, nid yw hyn yn effeithio ar y Gronfa Gyffredinol.
- Cafodd £85,000 o wariant ei drin yn anghywir fel rhagdaliad ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai cywiro hyn yn lleihau balans y dyledwyr ac yn cynyddu gwariant yn 2025-26.

## Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 21 Medi 2026.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Swyddog sy'n llofnodi ar ran y rheolwyr | Aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

# Atodiad 5 – Argymhelliad

**1. Rheoli Rhestr Eitemau a Ddosbarthwyd Fflyd**

Mae meddalwedd Technology One yr Awdurdod yn cynnwys modiwl rhestr eiddo, a ddefnyddir ar gyfer rhestr eiddo eu prif siopau. Mae hyn yn caniatáu cyfrifiadau awtomatig o brisiau cyhoeddi a gwerthuso eitemau sy'n weddill mewn stoc ar ddiwedd y flwyddyn, yn seiliedig ar anfonebau a dderbyniwyd a chyhoeddiadau a broseswyd. Ni ddefnyddir hwn ar gyfer rhestr eiddo fflyd ar hyn o bryd, sy'n cael ei chynnal gan daenlen.

Wrth brofi materion rhestr eiddo fflyd, nodwyd bod rhai eitemau fflyd yn cael eu cyhoeddi am bris nad oedd yn gyson â pholisi cyfrifyddu'r Awdurdod o 'cyntaf i mewn, cyntaf allan' (FIFO). Er bod hyn wedi cael effaith  ar y cyfrifon ar gyfer 2025-26 yn ddibwys, argymhellir bod y broses ar gyfer rheoli rhestr eiddo ar gyfer eitemau fflyd yn cael ei hymgorffori yn system Technology One i sicrhau bod prisiau cyhoeddi a gwerthoedd rhestr eiddo cau yn cael eu cofnodi'n gywir.

**Blaenoriaeth:**

Canolig

**Wedi’i dderbyn yn llawn gan y rheolwyr:**

Do

**Ymateb y rheolwyr:**

Bydd y Gwasanaeth yn adolygu addasrwydd ac effeithlonrwydd trosglwyddo rheoli rhestr eiddo fflyd i fodiwl rhestr eiddo TechnologyOne. Bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2026 i alluogi integreiddio llawn erbyn mis Mawrth 2027, lle bo'n briodol. Os na ystyrir mai integreiddio llawn yw'r ateb mwyaf effeithiol, bydd proses amgen yn cael ei gweithredu i sicrhau bod materion rhestr eiddo a phrisiadau stoc yn cael eu cyfrifo'n gyson yn unol â pholisi cyfrifyddu FIFO yr Awdurdod.

**Dyddiad rhoi ar waith:**

Mawrth 2027

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio diweddaraf.

### Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu

### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol

### Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

**Ewch at ein gwefan i ganfod:**

Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.

Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Adroddiad Cynnydd Archwiliad Mewnol Chwarterol 2026/27** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan MIAA, darparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 hyd at 31 Awst 2026.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. MIAA yw'r archwilwyr mewnol penodedig, ac mae ei waith yn cael ei lywodraethu gan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang fel sy'n berthnasol i'r sector cyhoeddus.

3 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno.

4 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 2 yn rhoi diweddariad o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt sy'n deillio o adroddiadau blaenorol.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) **Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2026/27; a**
ii) **Nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt.**

## CEFNDIR

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

## GWYBODAETH

8 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod 2026/27 o'i gymharu â'r cynllun blynyddol a gymeradwywyd.

9 Mae'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion o adroddiadau blaenorol.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses ar gyfer pennu cyllideb yn effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Mae adolygu systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Mae arweinydd ymgysylltu MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd trwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae cynnal archwiliad mewnol o'r prosesau ariannol craidd yn cynorthwyo i nodi a rheoli risgiau yn effeithiol. |

# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Pwyllgor Archwilio (Medi 2026)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Negeseuon Allweddol at Sylw'r Pwyllgor Archwilio

Atodiad A: Perfformiad y Contract

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Atodiad C: Meysydd Allweddol a Chamau Gweithredu i'w Cyflawni

Atodiad D: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

## Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU)

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU).

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/27 ac yn tynnu eich sylw at faterion sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi crynodeb o'r gweithgarwch Archwilio Mewnol ac yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU).

Darperir adroddiadau cynhwysfawr sy'n manylu ar ganfyddiadau, argymhellion a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r sefydliad, ac maent wedi'u cynnwys ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio. Hefyd, adroddir ar y sefyllfa gyfunol o safbwynt y camau dilynol o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Mehefin a 31 Awst 2026.

## 3 Crynodeb Gweithredol

| Adolygiadau Archwilio 2026/27 |
|---|
| Mae'r adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau:<br>• Partneriaethau a Chydweithio (Sicrwydd Cymedrol)<br>Ar y cyfan, gwelsom fod y system reolaeth fewnol sydd ar waith yn ddigonol. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd nodwyd gwendidau o ran dyluniad rheolaethau neu anghysondebau o ran eu defnydd. Mae gan y Gwasanaeth gytundebau ffurfiol ar waith ar gyfer partneriaethau Cartrefi Conwy ac OP ATAL, a gwelwyd bod y rhain yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol a amlinellir yng Nghynllun Rheoli Risg Cymunedol y Gwasanaeth ar gyfer 2026/27. Codwyd un argymhelliad risg uchel mewn perthynas â'r sicrwydd a gafodd yr Awdurdod Tân. Dylid gwella'r trefniadau adrodd sydd ar waith er mwyn cynnwys perfformiad yn erbyn y targedau/llwybrau penodol a amlinellir yn y cytundebau partneriaeth, a dylid darparu sicrwydd dros effeithiolrwydd y gwaith partneriaeth.<br>Gweler Atodiad C am fanylion y Meysydd Allweddol a'r Camau Gweithredu i'w Cyflawni |

| Camau Dilynol |
|---|
| Mae crynodeb o statws presennol yr holl weithgareddau dilynol wedi'i gynnwys fel adroddiad ar wahân. |

## Newidiadau i'r Cynllun Archwilio

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer unrhyw newidiadau i'r cynllun gwreiddiol ac amlygir hynny ar wahân isod i hwyluso'r broses fonitro.

Nid oes unrhyw gynigion ar hyn o bryd i newid y cynllun archwilio a gymeradwywyd.

## Achrediad Aur Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP)

Rydym yn falch iawn o ddweud bod MIAA wedi cael achrediad Aur Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP) am y trydydd tro yn olynol.

Dyma gyflawniad gwych sy'n gydnabyddiaeth o ddiwylliant cadarnhaol MIAA. Rhoddir achrediad aur i sefydliadau ag arferion staff gwych ar waith, rhai sydd hefyd yn cael eu profi a'u gwerthfawrogi'n gyson gan gydweithwyr ar draws y sefydliad.

## Gwerth Ychwanegol

### Nodiadau Briffio

Dyma ein nodiadau briffio/blogiau/podlediadau diweddaraf:

- Andrew Bowdler Blog: Ambient Voice Technology
- Blog Claire Hammill: The Value Equation

### Digwyddiadau

- Datblygu Arweinwyr Yfory (18 Medi 2026): Bydd y sesiwn hon yn trafod pwysigrwydd olyniaeth arweinyddiaeth effeithiol yn ein tirwedd sefydliadol esblygol, gan dynnu sylw at sut beth yw ar arfer da ar waith.

## Atodiad A: Perfformiad y Contract

Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU) yn nodi: ‘Yn sector cyhoeddus y DU, mae’n rhaid i brif swyddog archwilio baratoi casgliad cyffredinol o’r fath o leiaf unwaith y flwyddyn i gefnogi adroddiadau llywodraethiant ehangach, gan ystyried unrhyw rwymedigaethau neu brosesau penodol y sector. Rhaid i'r casgliad cyffredinol hwn gynnwys llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth.'

Mae'r tabl yn crynhoi gwaith cyflawni Barn eich Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/27:

| Maes Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Cytuno ar Gylch Gorchwyl | Statws | Lefel Sicrwydd | Adroddiad y Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risg - Rheolaethau Craidd | | Cyflawni Ch4 | | Mehefin 2027 |
| Partneriaethau a Chydweithio | ✓ | Wedi ei gwblhau | Cymedrol | Medi 2026 |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol | | Cyflawni Ch3 | | Mawrth 2027 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | | Cyflawni Ch3 | | Mawrth 2027 |
| Prosesau Recriwtio a Dyrchafu | | Cyflawni Ch3 | | Mawrth 2027 |
| Llywodraethiant AI | | Cyflawni Ch3 | | Mawrth 2027 |
| Camau Dilynol | | | | |
| Ch1 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Mehefin 2026 |
| CH2 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Medi 2026 |
| CH4 | Amh. | Cyflawni Ch4 | | Mehefin 2027 |

## Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Y prif fesur o berfformiad eich archwilydd mewnol yw'r allbynnau sy'n deillio o'r gwaith a wnaed. Mae'r canlynol yn rhoi gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad i gefnogi'r Pwyllgor wrth asesu perfformiad yr Archwiliad Mewnol.

| Elfen | Adrodd ar Reoleidd-dra | Statws | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cynnydd yn erbyn y Cynllun) | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | Dim materion i'w hadrodd |
| Cyhoeddi Holiadur Boddhad Cleientiaid ar ôl cwblhau pob archwiliad. | Mae pob adroddiad Terfynol yn cynnwys holiadur i gasglu adborth cleientiaid | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion a godwyd y cytunwyd arnynt | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion sy'n cael eu gweithredu | Adroddir ar gamau dilynol ddwywaith y flwyddyn | Gwyrdd | |
| Staff Cymwysedig | Blynyddol | Gwyrdd | Mae gan MIAA weithlu tra chymwys ac amrywiol sy'n cynnwys 65% o staff cymwysedig. Mae gan yr Uwch Dîm sy'n darparu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i GTAGC gymwysterau CCAB/IIA. |
| Ansawdd | Blynyddol | Gwyrdd | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae MIAA yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU). |

# Atodiad C: Meysydd Allweddol o'n Gwaith a'r Camau Gweithredu i'w Cyflawni

<table>
<tr><th>Teitl yr Adroddiad</th><th colspan="4">Partneriaethau a Chydweithio</th></tr>
<tr><td>Noddwr Gweithredol</td><td colspan="4">Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</td></tr>
<tr><td>Lefel Sicrwydd</td><td colspan="4">Cymedrol</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">Gwerthuso effeithiolrwydd y systemau i lywodraethu a rheoli perfformiad trefniadau cydweithio a phartneriaeth, i sicrhau gwerth am arian.</td></tr>
<tr><td>Argymhellion</td><td>0 x Critigol</td><td>1 x Uchel</td><td>4 x Canolig</td><td>1 x Isel</td></tr>
<tr><td>Crynodeb</td><td colspan="4"><ul>
<li>Mae gan y Gwasanaeth (GTAGC) Gytundeb Gwasanaeth ar waith gyda Chartrefi Conwy, sy'n rhedeg o 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2027, ac fe’i llofnodwyd gan y ddau barti ar ddechrau'r contract.</li>
<li>Nododd adolygiad o'r Cytundeb Gwasanaeth fod rolau a chyfrifoldebau'r Gweithiwr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref (disgrifiad swydd ac amcanion allweddol 2024–2027 wedi'u cynnwys yn yr atodiad) wedi'u diffinio'n glir, ynghyd â'r tâl a'r telerau talu.</li>
<li>Mae Atodiad 2 o'r Cytundeb Gwasanaeth yn nodi beth yw’r canlyniadau gofynnol i fonitro yn eu herbyn ynghyd â'r amserlenni gofynnol ar gyfer monitro.</li>
<li>Mae Grŵp Craidd Tân wedi'i sefydlu i oruchwylio diogelwch tân ar gyfer Cartrefi Conwy. Cawsom ddetholiad o gofnodion y Grŵp Craidd Tân ar gyfer y cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Ebrill a Chwefror 2026 yn uniongyrchol gan Gartrefi Conwy. Roedd y rhain yn cadarnhau presenoldeb cynrychiolwyr y Gwasanaeth a chynrychiolwyr Cartrefi Conwy.</li>
<li>Nodwyd adroddiadau am waith a wnaed mewn perthynas â Cartrefi Conwy a gyflwynwyd yng nghyfarfodydd y Grŵp Craidd Tân. Roeddent ymdrin â nifer yr archwiliadau diogel ac iach a</li>
</ul></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | gynhaliwyd, ni fer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd, nifer y digwyddiadau, a throsolwg o'r hyfforddiant a ddarparwyd.<br>• Mae gan y Gwasanaeth Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) ar waith ar gyfer contract OP ATAL (dyddiedig Ebrill 2025) a oedd yn cwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd 2024 (neu hyd nes y deuai'r cyllid presennol i ben). Nodwyd nad yw'r cyllid wedi dod i ben eto, felly roedd y Memorandwm yn dal i fod yn berthnasol pan wnaed yr archwiliad ac roedd yn cael ei adolygu.<br>• Cadarnhaodd profion 'walkthrough' y cafwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 a oedd yn cadarnhau dyfarniad cyllid mewn perthynas ag OP ATAL ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Cafwyd e-bost arall gan Swyddog Cyswllt yr Heddlu ar gyfer Heddlu Gwent (sef ail arweinydd y bartneriaeth) ym mis Chwefror 2026 a nodai bod y cyllid wedi'i gytuno tan ddiwedd mis Rhagfyr 2026.<br>• Nododd ein hadolygiad o'r Memorandwm fod rolau a chyfrifoldebau pob parti wedi'u diffinio ynghyd â'r adnoddau gofynnol o bob un o'r meysydd, gan gynnwys GTAGC.<br>• Roedd Atodlen 2 o fewn llythyr cyllido 2025/26 yn manylu ar dargedau penodol y dylid monitro yn eu herbyn a'r ymrwymiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r bartneriaeth.<br>• Yn ystod ein hadolygiad, cawsom wybod bod sawl grŵp sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth Cymru yn cwrdd i fonitro partneriaeth OP ATAL e.e. cyfarfod Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru Gyfan a Grŵp Strategol Rhanbarthol Plismona Ffyrdd Cymru.<br>• Cafodd MIAA e-bost uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i gadarnhau bod cyfarfodydd adolygu chwarterol Gan Bwyll wedi'u cynnal (cyfarfod Cymru Gyfan) i drafod cynnydd yn erbyn amcanion y grant (fel yr amlinellir yn Atodlen 2 y llythyr cyllido 25/26). Cawsom enghraifft o 2025/26 a oedd yn cwmpasu Chwarteri 1–3, ac roedd pob un ohonynt wedi'u graddio'n wyrdd gan Lywodraeth Cymru.<br>• Nododd ein hadolygiad fod y prosesau cyffredinol a ddogfennwyd yn y Cytundeb Gwasanaeth/Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y ddau gontract wedi bod, ar y cyfan, yn gweithredu yn ymarferol. Fodd bynnag, mae rhai meysydd i'w gwella wedi'u nodi (*Gweler Argymhelliad 3*). |

| | |
|---|---|
| | • Canfu ein hadolygiad o Gynllun Rheoli Risg Cymunedol y Gwasanaeth ar gyfer 2026/27, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ym mis Ebrill 2026, fod gweithgarwch partneriaeth mewn perthynas â Cartrefi Conwy ac OP ATAL yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau corfforaethol.<br><br>• Nododd adolygiad o bapurau a chofnodion cyfarfod chwarterol y Pwyllgor Perfformiad Atal ac Diogelu, rhwng Hydref 2025 ac Ebrill 2026, fod adroddiad diweddaru Atal wedi'i ddarparu ym mhob cyfarfod. Mae hyn yn rhoi diweddariad ar amcanion cyffredinol yr adrannau ac yn rhoi trosolwg ar berfformiad a gweithgarwch e.e. nifer yr archwiliadau diogel ac iach a gynhaliwyd, camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed i danau yn eu cartrefi, ffigurau OP ATAL (gan gynnwys nifer yr ymgysylltiadau gyrwyr a throseddau traffig a adroddwyd).<br><br>• Gwylwyd bod Cylch Gorchwyl wedi'i sefydlu ar gyfer y Pwyllgor Perfformiad Atal a Diogelu (dyddiedig Medi 2025), a oedd yn adlewyrchu bod yr adroddiad diweddaru Atal yn erbyn amcanion yr adran yn eitem sefydlog ar yr agenda ac mai un o gyfrifoldebau'r pwyllgor oedd sicrhau bod gan y Gwasanaeth bartneriaethau gweithio strategol, effeithiol a chydweithredol sy'n diwallu anghenion strategol y Gwasanaeth.<br><br>• Canfu adolygiad o'r adroddiadau Monitro Perfformiad Chwarterol a ddarparwyd i'r Panel Gweithredol ac wedyn i'r Awdurdod Tân yn ystod 2025/26 fod adroddiadau perfformiad a gweithgarwch mewn perthynas â Cartrefi Conwy ac OP ATAL yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad chwarterol. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddangosyddion, megis nifer yr archwiliadau diogel ac iach a gynhaliwyd yn ystod y chwarter, nifer y cyflwyniadau ar ochr y ffordd a nifer y dirwyon a roddwyd i yrwyr.<br><br>• Roedd adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 4 2025/26 hefyd yn darparu crynodeb blynyddol o'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, a adroddwyd i'r Panel Gweithredol ym mis Mai 2026 ac a oedd i fod i fynd gerbron yr Awdurdod Tan ac Achub ym mis Gorffennaf 2026. Nodwyd bod yr adroddiad yn nodi bod y tîm yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru i addysgu gyrwyr ar y "5 Angheuol", yn ogystal â nifer y cyflwyniadau ar ochr y ffordd a gyflwynwyd, a nifer y gyrwyr a gafodd erlyniadau sy'n gysylltiedig â gyrru. |

| | |
|---|---|
| Meysydd Allweddol y Cytunwyd i Weithredu Arnynt | • Nid yw'r adroddiad diweddariad Atal a roddir i'r Pwyllgor Perfformiad Atal a Diogelu bob chwarter yn darparu sicrwydd ar effeithiolrwydd y cytundebau cydweithredu sydd ar waith. Gwelodd adolygiad o'r adroddiadau Monitro Perfformiad Chwarterol yn ystod 2025/26 y bu adroddiadau am berfformiad a gweithgarwch mewn perthynas â chontractau Cartrefi Conwy a OP ATAL. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau'n rhoi sicrwydd ar effeithiolrwydd y cytundeb cydweithredu gyda Chartrefi Conwy. Mewn perthynas ag OP ATAL, nododd adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 4 2025/26 (a adroddwyd i'r Panel Gweithredol ar 28 Mai 2026 ac sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod Tân ar 20 Gorffennaf 2026) fod y tîm yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru i addysgu gyrwyr. Fodd bynnag, nid yw'r perfformiad a adroddwyd wedi'i fesur yn erbyn y targedau/taflwybrau penodol a amlinellwyd yn y cytundebau partneriaeth. (Risg Uchel)<br><br>• Cartrefi Conwy – roedd rhaid i ni ofyn am bapurau cyfarfod y Grŵp Craidd Tân gan Cartrefi Conwy yn uniongyrchol. Canfuwyd bod Cylch Gorchwyl wedi'i sefydlu ar gyfer y Grŵp Craidd Tân, ond nad oedd dyddiad arno. OP ATAL – dim ond rhywfaint o dystiolaeth o'r gwahanol gyfarfodydd a gynhelir ar gyfer bartneriaeth a ddarparwyd i ni e.e. cyfarfod Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru Gyfan, Grŵp Strategol Rhanbarthol Plismona'r Ffyrdd Cymru. Oherwydd cymhlethdod y bartneriaeth, ni allwn gadarnhau'r trefniadau llywodraethiant ac adrodd sydd ar waith i oruchwylio'r bartneriaeth. Roedd ein hadolygiad o'r cofnodion cyfarfodydd a ddarparwyd i ni yn ystod yr adolygiad yn dangos y bu trafodaethau ynghylch rhyngweithiadau penodol rhwng y partneriaid (e.e. hyfforddiant, digwyddiadau, camau gweithredu a gymerwyd i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed, camau gweithredu o amgylch y 5 Angheuol i dargedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl) lle nodwyd meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, ni allwn gadarnhau bod asesiad ffurfiol o effeithiolrwydd cyffredinol y trefniadau cydweithredu wedi'i gynnal, gyda mewnbwn gan y partneriaid, mewn perthynas â'r canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd. (Risg Ganolig)<br><br>• Cartrefi Conwy – Cadarnhaodd adolygiad o gofnodion y Grŵp Craidd Tân fod adroddiadau yn cael eu rhoi am weithgarwch partneriaeth, megis nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd, nifer yr atgyfeiriadau, digwyddiadau a throsolwg o'r hyfforddiant a ddarperir. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth benodol am holl amcanion a restrir yn y contract yn Atodiad 2 yn cael ei gasglu, ei fonitro a'i adrodd. OP ATAL – Cysylltodd MIAA yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfarfodydd adolygu chwarterol Gan Bwyll. Cafodd MIAA e-bost gan |

| | |
|---|---|
| | Lywodraeth Cymru i gadarnhau bod cyfarfodydd wedi'u cynnal i drafod cynnydd yn erbyn amcanion y grant (fel yr amlinellir yn Atodlen 2 llythyr cyllido 2025/26). Cawsom enghraifft o 2025/26 a oedd yn cwmpasu chwarteri 1–3, ac roedd pob un ohonynt wedi'u graddio'n wyrdd gan Lywodraeth Cymru. (Risg Ganolig)<br>• Yn ystod yr adolygiad, fe wnaethom nodi bod y contract OP ATAL wedi'i ymestyn tan ddiwedd Rhagfyr 2026, a phan wnaed yr adolygiad nid oedd y Gwasanaeth yn siŵr a fyddai hyn yn cael ei ymestyn eto. Nid yw risg sy'n gysylltiedig ag ymestyn contract OP ATAL wedi'i gynnwys ar y gofrestr risg. (Risg Ganolig)<br>• Mae'r Gwasanaeth yn y broses o weithredu Storfa Contractau ar system TechOne i gefnogi'r broses 'o'r dechrau i'r diwedd', o gontractio i anfonebu, gan gynnwys monitro manylion y contract e.e. dyddiadau dod i ben contractau, cyfnodau adnewyddu. (Risg Ganolig)<br>• Canfuwyd bod y copi o'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth a ddarparwyd yn ystod yr adolygiad wedi'i lofnodi gan Lywodraeth Cymru a GTAGC, fodd bynnag, nodwyd nad oedd pob parti wedi'i lofnodi. (Risg Isel) |

## Atodiad D: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau'n cael eu gweithredu'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau'n cael eu gweithredu'n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol; fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran cynllunio a/neu weithredu rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau o ran cynllunio a/neu weithredu mesurau rheolaeth yn anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan fod gwendidau o ran rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau wedi, neu fe allai, arwain at fethu â chyflawni amcanion y system. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol nid yn unig ar amcanion y system, swyddogaeth neu broses ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, y swyddogaeth neu'r broses. Nid yw'r gwendid hwn, er ei fod yn cael effaith fawr o ran y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid rheoli:<br>• sy'n cael effaith fach ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sydd wedi golygu bod y system, swyddogaeth neu broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yw’r rhai a godir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod angen eu gwneud. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi gwarant gyflawn o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Mae'r cyfrifoldeb dros system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall yn parhau i fod yn nwylo’r rheolwyr ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn rheolaethau mewnol, na dibynnu arno i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae’n bwysig bod rheolwyr yn gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol er mwyn cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb ar ran unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir atebolrwydd i unrhyw drydydd parti gan nad yw’r adroddiad wedi’i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi’i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw’n barti i’r cytundeb ar gyfer darparu Archwiliad Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

**Anne-marie Harrop**
Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol
Ffôn: 07920 150313
E-bost: Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**
Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol
Ffôn: 07469 378328
E-bost: Ann.ellis@miaa.nhs.uk

# Adroddiad Neilltuo

# Gwaith Dilynol ar Argymhellion 2026/27

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Medi 2026

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol

2 Crynodeb o'r Canfyddiadau

Atodiad A: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

Atodiad B: Rhestr Ddosbarthu'r Adroddiad

Hoffai MIAA ddiolch i'r holl staff am eu cydweithrediad a'u cymorth wrth gwblhau'r adolygiad hwn.

Mae'r adroddiad wedi'i baratoi fel y'i comisiynwyd gan y sefydliad, ac mae at eich defnydd chi yn unig. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r adolygiad hwn, cysylltwch â'r Rheolwr Ymgysylltu. I drafod unrhyw faterion eraill, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr.

# 1 Crynodeb Gweithredol

Rhan allweddol o'r gwaith a wna MIAA fel eich archwilwyr mewnol yw ein hargymhellion ar sut i wella a chryfhau llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaethau er mwyn cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion. Rhaid gwneud gwaith dilynol i olrhain cynnydd y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, a hynny i wirio bod manteision yr argymhellion yn cael eu gwireddu ac er mwyn asesu'n drylwyr:

- A yw'r argymhellion wedi'u gweithredu ynteu a ydynt wedi cael eu disodli gan ddigwyddiadau diweddarach; ac
- A gafodd y camau gweithredu yr effaith a fwriadwyd.

Mae'r camau dilynol hyn, felly, yn agwedd hanfodol ar y broses archwilio mewnol, ac mae ailymweld ag aseiniadau blaenorol yn rhan o'n polisi ni, yn unol â'r cynllun Archwilio Mewnol.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn nodi pa feysydd ac argymhellion a adolygwyd y tro hwn ac yn dangos lefel y cynnydd a wnaed.  Mae ein hadolygiad yn cadarnhau bod cynnydd da wedi digwydd o ran gweithredu argymhellion.

## 2 Crynodeb o'r Canfyddiadau

Mae’r tabl isod yn nodi pa feysydd ac argymhellion a adolygwyd y tro hwn ac yn dangos lefel y cynnydd a wnaed.

| Adroddiad Archwilio | Cyfanswm yr argymhellion i’w | Wedi’u gweithredu | Yn rhannol | | | | Heb eu gweithredu | | | | Wedi eu disodli/Wedi’u gwrthod | | | | Heb eu holrhain hyd yma | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | |
| 2023/24 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adolygiad o’r Rheolaethau Seiber Sefydliadol | 6 | - | - | 1 | 5 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | Mae 6 argymhelliad wedi'u gweithredu'n rhannol mewn perthynas â'r camau gweithredu canlynol:<br>• Rheoli ac ymateb i ddigwyddiadau a rhoi adroddiadau am fygythiadau (***Uchel, H***)<br>• Ymgorffori seiberddiogelwch, datblygu diwylliant seiberddiogelwch cadarnhaol a chynyddu arbenigedd seiber (***Canolig, M***)<br>• Rheolaeth trydydd partïon/partneriaid (***Canolig, M***)<br>• Adnabod asedau seiber (***Canolig, M***)<br>• Cyfundrefn seiberddiogelwch (***Canolig, M***) |

| Adroddiad Archwilio | Cyfanswm yr argymhellion i'w | Wedi'u gweithredu | Yn rhannol | | | | Heb eu gweithredu | | | | Wedi eu disodli/Wedi'u gwrthod | | | | Heb eu holrhain hyd yma | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | • Mesurau seiberddiogelwch (***Canolig, M***)<br>Dyddiadau gweithredu diwygiedig – Diwedd Medi 2026<br>Swyddog Cyfrifol – Pennaeth TGCh |
| 2024/25 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi | 4 | 3 | - | - | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | Mae 1 argymhelliad wedi'i weithredu'n rhannol mewn perthynas â'r cam gweithredu canlynol:<br>• Trefniadau Adrodd ***(Canolig, M)***<br>Dyddiadau gweithredu diwygiedig – mis Hydref 2026<br>Swyddog Cyfrifol – Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu |
| 2025/26 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Rheoli Asedau Offer | 8 | 2 | - | - | 4 | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | Mae 2 argymhelliad bellach wedi'u gweithredu.<br>Mae 5 argymhelliad wedi'u gweithredu'n rhannol mewn perthynas â'r camau gweithredu canlynol: |

| Adroddiad Archwilio | Cyfanswm yr argymhellion i'w | Wedi'u gweithredu | Yn rhannol | | | | Heb eu gweithredu | | | | Wedi eu disodli/Wedi'u gwrthod | | | | Heb eu holrhain hyd yma | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | • Monitro Cylch Oes ac Amnewid ***(Canolig, M)****;*<br>• Adrodd ar Lywodraethiant ***(Canolig, M)****;*<br>• Polisïau, Gweithdrefnau a Strategaeth ***(Canolig, M)****;*<br>• Hyfforddiant ***(Canolig, M)****;*<br>• Atgyweiriadau a Gwaredu ***(Isel, L)****.*<br><br>Dyddiadau gweithredu diwygiedig – Ebrill 2027<br><br>Swyddog Cyfrifol – Rheolwr Ardal, Gweithrediadau Technegol a Fflyd<br><br>Nid yw'r dyddiad gweithredu ar gyfer 1 argymhelliad (Risg Uchel, H) mewn perthynas â'r System Olrhain Asedau wedi mynd heibio eto (Ebrill 2027). |
| Cynllunio Busnes | 5 | 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 2 | - | Mae 2 argymhelliad bellach wedi'u gweithredu.<br><br>Mae 1 argymhelliad wedi'i weithredu'n rhannol mewn perthynas â'r cam gweithredu canlynol:<br><br>• Arfarniadau staff ***(Canolig, M)*** |



miaa

| Adroddiad Archwilio | Cyfanswm yr argymhellion i'w | Wedi'u gweithredu | Yn rhannol | | | | Heb eu gweithredu | | | | Wedi eu disodli/Wedi'u gwrthod | | | | Heb eu holrhain hyd yma | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | C | H | M | L | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Dyddiadau gweithredu diwygiedig – Ebrill 2027<br>Swyddog Cyfrifol – Pennaeth Cyllid a Chaffael<br>Nid yw'r dyddiad gweithredu ar gyfer yr argymhelliad sy'n weddill (Risg Ganolig, M) mewn perthynas â gweithredu ar ôl gwerthuso wedi pasio eto (Tachwedd 2026). |
| Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol | 4 | 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | Mae 3 argymhelliad bellach wedi'u gweithredu.<br>Nid yw'r dyddiad gweithredu ar gyfer 1 argymhelliad (Risg Isel, L) mewn perthynas â Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs) wedi pasio eto (Diwedd Medi 2026). |
| Rheolaethau Craidd Rheoli Risg | 4 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | 2 | 1 | Nid oes yr un o'r dyddiadau gweithredu wedi mynd heibio eto (diwedd Medi 2026) |
| **CYFANSWM** | 31 | 11 | - | 1 | 10 | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 2 | 4 | 2 | |

## Atodiad A: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau'n cael eu gweithredu'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau'n cael eu gweithredu'n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol; fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran cynllunio a/neu weithredu rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau o ran cynllunio a/neu weithredu mesurau rheolaeth yn anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan fod gwendidau o ran rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau wedi, neu fe allai, arwain at fethu â chyflawni amcanion y system. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol nid yn unig ar amcanion y system, swyddogaeth neu broses ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, y swyddogaeth neu'r broses. Nid yw'r gwendid hwn, er ei fod yn cael effaith fawr o ran y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid rheoli:<br>• sy'n cael effaith fach ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sydd wedi golygu bod y system, swyddogaeth neu broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Atodiad B: Rhestr Ddosbarthu'r Adroddiad

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Y Pwyllgor Archwilio | |

**Angharad Ellis**
**Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol**
Ffôn: 07469378328
E-bost: Angharad.Ellis@miaa.nhs.uk

## Cyfyngiadau

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb ar ran unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir atebolrwydd i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r cytundeb ar gyfer darparu Archwiliad Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

## Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Sector Cyhoeddus y DU)

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â *Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU)*.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Ch1 2026/27** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am weithgarwch rheoli trysorlys ac am gydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2026 hyd at 30 Mehefin 2026.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd yr Awdurdod *God Ymarfer Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth *Cod Ymarfer (2021)* (y Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo, fan lleiaf, adroddiadau alldro blynyddol a lled-flynyddol ar reoli'r trysorlys.

3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i roi adroddiadau chwarterol ar y dangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2026/27 mewn cyfarfod ar 20 Ebrill 2026. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid mewn cyfraddau llog ar refeniw. Mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn rhan ganolog o strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

5 Yn ystod y flwyddyn, roedd lefelau benthyca a buddsoddi'r Awdurdod yn gyfforddus o fewn y terfynau a osodwyd yn wreiddiol. Ni chafwyd unrhyw ddiffygdalu newydd gan fanciau lle mae'r Awdurdod wedi adneuo arian.

## ARGYMHELLION

6 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) nodi gweithgareddau'r rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2026 i 30 Mehefin 2026.**

## CYD-DESTUN ALLANOL

7 Prif stori'r chwarter oedd parhad y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, a ddechreuodd ar 28 Chwefror yn sgil ymosodiadau Israel a'r Unol Daleithiau ar Iran. Arweiniodd y gwrthdaro at gau Culfor Hormuz, dyfrffordd sy'n cludo 20% o olew a nwy naturiol hylifedig y byd, gan arwain at gynnydd sydyn ym mhrisiau ynni a nwyddau eraill.

8 Gostyngodd prif Fynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) y DU dros y chwarter, o gyfradd flynyddol o 3.3% ym mis Mawrth i 2.8% ym mis Mai, ond roedd yn dal i fod ymhell yn uwch na tharged Banc Lloegr o 2%. Gostyngodd mesur craidd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr hefyd, o 3.1% i 2.6% dros yr un cyfnod. Roedd pwysau am i fyny mewn chwyddiant yn adlewyrchu prisiau tanwydd ar y cyfan, ond roedd cyfraddau chwyddiant wedi arafu mewn llawer o gategorïau eraill, gan gynnig rhywfaint o dystiolaeth nad yw prisiau ynni uwch yn effeithio yn uniongyrchol ar yr is-set ehangach o gynnyrch.

9 Er y bu disgwyl iddo ostwng o 3.75%, dewisodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) gynnal Cyfradd y Banc yn sefydlog trwy gydol y chwarter.

10 Parhaodd Arlingclose, cynghorydd trysorlys yr awdurdod, â'u barn ganolog y bydd Cyfradd y Banc yn aros ar 3.75%, ac y byddai Banc Lloegr yn canolbwyntio ar y capasiti sbâr yn yr economi, yn enwedig yn y farchnad lafur, yn hytrach nag ar ansicrwydd posibilrwydd enillion a ddaw o chwyddiant parhaus. Ystyrir bod cydbwysedd y risgiau dros y tymor byr, fodd bynnag, yn tueddu tuag at godi, gan y bydd arwyddion o effeithiau chwyddiant ail rownd yn ysgogi llunwyr polisi i godi cyfraddau llog. Dros y tymor canolig, mae'r cydbwysedd risg ar gyfer Cyfradd Banc yn symud i lawr, gyda pholisi ariannol tynnach, prisiau uwch a thwf gwannach yn cyflwyno risgiau colledion ar gyfer chwyddiant.

## CYD-DESTUN LLEOL

11 Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan yr Awdurdod fenthyciadau net o £15.76m yn deillio o wariant cyfalaf. Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

| | **31.03.26 Gwirioneddol £m** | **30.06.26 Gwirioneddol £m** |
|---|---|---|
| CFR y Gronfa Gyffredinol | 31.75 | 30.33 |
| Benthyca allanol | -15.76 | -15.19 |
| **Benthyca mewnol** | **15.99** | **15.14** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -18.61 | -18.61 |
| Llai: Buddsoddiadau Newydd | 2.62 | 3.47 |
| **Benthyca newydd** | **0.00** | **0.00** |

12 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Dangosir y sefyllfa rheoli trysorlys ar 30 Mehefin a'r newid yn ystod y flwyddyn yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys**

| | 31.3.26 Balans | Symudiad | 30.06.26 Balans | 30.06.26 Cyfradd |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | % |
| Benthyca hirdymor | 11.68 | 1.20 | 12.87 | 2.81 - 4.86 |
| Benthyca byrdymor | 4.08 | -1.77 | 2.31 | 2.81 – 4.86 |
| **Cyfanswm y benthyca** | **15.76** | **-0.57** | **15.19** | |
| Buddsoddiadau byrdymor | 0.00 | -1.00 | -1.00 | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | -2.62 | 0.15 | -2.47 | 3.00 - 3.51 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **-2.62** | **-0.85** | **-3.47** | |
| **Benthyca net** | **13.14** | **-1.42** | **11.72** | |

**STRATEGAETH A GWEITHGARWCH BENTHYCA**

13 Yn unol â'r strategaeth trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca yw mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel a chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau hirdymor yr Awdurdod yn newid. Mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i ymdrin â mater allweddol fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.

14 Cyfradd sicrwydd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 5 mlynedd oedd 5.16% ar ddechrau'r cyfnod a 5.07% ar y diwedd. Y gyfradd sicrwydd aeddfedrwydd 5 mlynedd isaf ar gael oedd 5.04% a'r uchaf oedd 5.49%. Mewn cyferbyniad, roedd y cyfraddau ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 20 mlynedd yn amrywio o 6.02% i 6.50% yn ystod y cyfnod, a benthyciadau aeddfedrwydd 50 mlynedd yn amrywio rhwng 5.89% a 6.35%. Ar ôl dod i lawr o'r gynnydd nodweddiadol a welir tua diwedd blynyddoedd ariannol, mae cost benthyca tymor byr gan awdurdodau lleol eraill wedi aros ychydig yn uwch na'r Gyfradd Sylfaenol, rhwng 4.0% a 4.5%, trwy gydol y cyfnod.

15 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu'r ffaith na ddylai awdurdodau lleol fenthyca er mwyn buddsoddi gyda'r nod pennaf o elwa'n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.

16 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

17 Ar 30 Mehefin 2026, roedd gan yr Awdurdod £15.19m o fenthyciadau, gostyngiad o £0.57m o'i gymharu â 31 Mawrth 2026. Ceir crynodeb o'r benthyciadau sy'n weddill ar 30 Medi yn Nhabl 3A isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa o ran Benthyca**

| | 31.3.26 Balans £m | Symudiad Net £m | 30.06.26 Balans £m | 30.06.26 Cyfradd Gyfartalog wedi'i Phwysoli % | 30.06.26 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 13.76 | 1.430 | 15.186 | 4.260 | 8.960 |
| Awdurdodau lleol (tymor byr) | 2.00 | -2.000 | 0.000 | 6.350 | 0.000 |
| **Cyfanswm y benthyca** | **15.76** | **-0.57** | **15.186** | | |

18 Benthycodd yr Awdurdod £2M ym mis Mawrth 26, i'w ad-dalu ym mis Ebrill 26. Cymerodd fenthyciad pellach o £1.5m ym mis Mehefin 26, i'w ad-dalu ym mis Rhagfyr 2028. Bydd benthyciad ALl o £2m yn cael ei gymryd ym mis Gorffennaf 26, i'w ad-dalu ym mis Mawrth 27. Mae pob benthyciad tymor byr arall gyda'r PWLB. Bydd angen benthyca pellach yn y flwyddyn 2026/27.

**Tabl 3B: Benthyciadau hirdymor a fenthycwyd**

| | Swm £m | Cyfradd % | Cyfnod (Blynyddoedd) |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB | 2.00 | 4.80 | 26 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.55 | 3.09 | 11 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.30 | 2.81 | 1 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.40 | 4.31 | 2 |
| Benthyciad EIP PWLB | 3.89 | 3.91 | 15 |
| Benthyciad EIP PWLB | 1.40 | 4.61 | 4 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.90 | 4.80 | 9 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.86 | 4.58 | 7 |
| Benthyciad EIP PWLB | 1.38 | 4.80 | 12 |
| Benthyciad EIP PWLB | 1.20 | 4.86 | 2 |
| **Cyfanswm y benthyca** | **12.87** | | |

19 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, ac mae'n ceisio cynnal portffolio cytbwys o fenthyca byrdymor a hirdymor.

**GWEITHGARWCH BUDDSODDI RHEOLI TRYSORLYS**

20 Mae Cod Rheoli Trysorlys CIPFA bellach yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel y buddsoddiadau hynny sy'n codi o lif arian yr Awdurdod neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi hyd nes y bydd angen yr arian parod i'w ddefnyddio ar gyfer y busnes.

21 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y cyfnod, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £0.526 a £6.287m. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | **31.3.26** | | **30.06.26** | **30.06.26** | **30.06.26** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Balans** | **Symudiad Net** | **Balans** | **Adenillion Incwm** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **%** | **dyddiau** |
| Banciau a chymdeithasau adeiladu | 2.62 | -0.15 | 2.47 | 3.00-3.51 | Ar alwad |
| BOS Cyfnod Penodol | | 1.00 | 1.00 | 4.04 | 22 |
| Llywodraeth Ganolog | | | | | |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **2.62** | **0.85** | **3.47** | | |

22 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei arian yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion neu incwm orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o gael incwm buddsoddi anaddas o isel.

23 Fel y mae'r meincnod atebolrwydd yn yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor, ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

24 Cynhaliwyd Cyfradd Banc ar 3.75%. Mae'r cyfraddau llog tymor byr wedi dilyn y lefelau hyn ar y cyfan. Roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF yn amrywio rhwng 3.70% a 3.73% a chyfraddau'r farchnad arian rhwng 3.51% a 4.04%.

## CYDYMFFURFIAETH

25 Mae'r holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yn y Cod Rheoli Trysorlys ac yn Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, fel y'i cymeradwywyd. Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ddau gyfrif galwadau sy'n cael eu defnyddio i osod adneuon tymor byr, gyda Lloyds Bank a Barclays Bank. Mae'r cyfraddau llog sy'n cael eu cynnig ar adneuon trysorlys yn tueddu i fod yn fwy ffafriol; fodd bynnag, cadwyd adneuon gyda Lloyds a Barclays yn ystod y cyfnod oherwydd y gofyniad hylifedd ar gyfer prynu'r tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd.

26 Mae'r awdurdod hefyd yn defnyddio ei gyfrif gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO), gan nad yw'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn rhoi cyfyngiad ar faint o arian y gellir ei roi i'r DMO.

27 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 5: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn | 30.06.26 Gwirioneddol | Wedi cydymffurfio? Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|
| Banciau | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â sgoriau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd. | £5m | **£3.47m** | do |
| Llywodraeth Ganolog | Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) | Diderfyn | **0** | do |
| Cronfeydd Marchnad Arian (MMF) | Dim ond ar y cyd â chyngor ar gyfer Arlingclose. | £1m fesul cronfa | **0** | do |
| Awdurdodau Lleol | Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau dan Ran 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 | £2m | **0** | do |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) | £2m | **0** | do |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1 biliwn neu fwy. | £2m/9 mis | **0** | do |

28 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn Nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

| | **30.06.26 Gwirioneddol £m** | **Ffin Weithredol 2026/27 £m** | **Terfyn Awdurdodedig 2026/27 £m** | **Wedi cydymffurfio?** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 15.19 | 36.12 | 38.12 | Ydw |
| **Cyfanswm y ddyled** | **15.19** | **36.12** | **38.12** | |

29 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd achlysuron pan fydd y benthyca gwirioneddol yn fwy na'r targed hwn. Gallai hyn ddigwydd oherwydd amrywiadau yn y llif arian parod ac ni fyddai torri'r terfyn yn y byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

## DANGOSYDDION DARBODUS RHEOLI TRYSORLYS

30 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli trysorlys.

### Meincnod Atebolrwydd

31 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod ar hyn o bryd yn erbyn meincnod atebolrwydd a gyfrifwyd i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod atebolrwydd yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i ddull o wneud penderfyniadau yn sgil hynny.

32 Mae'r dangosydd yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian parod o ddydd i ddydd.

| | 31.03.26 Gwirioneddol £m | 30.06.26 Gwirioneddol £m | 31.03.27 Rhagolwg £m | 31.03.28 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|
| CFR Benthyciadau | 31.75 | 30.33 | 38.60 | 65.60 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -18.61 | -18.61 | -25.20 | -21.70 |
| **Gofyniad benthyciadau net** | 13.14 | 11.72 | 13.40 | 43.90 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.00 | 2.00 | 2.00 | 2.00 |
| **Meincnod atebolrwydd** | **15.14** | **13.72** | **15.40** | **45.90** |
| **Benthyciadau presennol** | **-15.76** | **-15.19** | **-12.90** | **-10.50** |

33 Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn rhagdybio y bydd gwariant cyfalaf cronnol yn cael ei ariannu drwy fenthyca £22.0 miliwn yn 2026/27, £29.4 miliwn yn 2027/28 a £33.3 miliwn yn 2028/29. Mae'r lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar oes yr ased ar gyfer y dosbarth asedau ac incwm, gwariant a chronfeydd wrth gefn i gyd yn cynyddu gan chwyddiant o 2.5% y flwyddyn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol yr Awdurdod.




34 Mae'r graff yn dangos bod angen i'r Awdurdod fenthyca yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthyca trwy'r adeg gan nad oes ganddo arian parod na chronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.

35 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd

cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae’r llinell goch doredig yn cynrychioli’r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae’r llinell solet yn cynrychioli’r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae’r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng o dan y llinellau coch, mae’n golygu bod angen benthyca.

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**

36 Mae’r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd pob benthyciad oedd:

| | 31.03.26 Gwirioneddol | Terfyn Gwirioneddol | Uchaf Terfyn | Isaf Terfyn | Wedi Cydymffurfio? Do / Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| <12 mis | 2.31 | 15.21% | 60.00% | 0.00% | Do |
| 12 mis a <24 mis | 2.38 | 15.67% | 45.00% | 0.00% | Do |
| 24 mis a < 5 mlynedd | 3.66 | 24.09% | 45.00% | 0.00% | Do |
| 5 mlynedd a <10 mlynedd | 3.48 | 22.91% | 75.00% | 0.00% | Do |
| >10 mlynedd | 3.36 | 22.12% | 100.00% | 0.00% | Do |

37 Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw’r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

**Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor**

38 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

**Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net**

39 Er nad yw gwariant cyfalaf yn cael ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw, mae llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a'r Lleiafswm Darpariaeth Refeniw yn cael eu codi ar refeniw.

40 Gelwir y tâl blynyddol net yn gostau ariannu; mae hyn yn cael ei gymharu â'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a ariennir o'r Dreth Gyngor, trethi busnes a grantiau cyffredinol y llywodraeth.

| | 2025/26 Gwirioneddol | 2026/27 cyllideb | Cyllideb 2027/28 | Cyllideb 2028/29 |
|---|---|---|---|---|
| Costau ariannu (£m) | 4.906 | 4.501 | 5.200 | 5.900 |
| Cyfran y llif refeniw net | 9.64% | 8.16% | 9.2% | 10.0% |

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae rheoli trysorlys effeithiol yn sail i amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf mewn gorsafoedd, fflyd a seilwaith hyfforddi yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Mae cynnal cydymffurfiaeth â Chod Rheoli Trysorlys CIPFA yn cefnogi gwytnwch ariannol, gan alluogi'r Awdurdod i barhau i ddarparu gwasanaethau ymateb ac atal brys dros y tymor canolig a'r tymor hir. |
| **Cyllideb** | Mae rheoli trysorlys effeithiol yn sail i amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf mewn gorsafoedd, fflyd a seilwaith hyfforddi yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Mae cynnal cydymffurfiaeth â Chod Rheoli Trysorlys CIPFA yn cefnogi gwytnwch ariannol, gan alluogi'r Awdurdod i barhau i ddarparu gwasanaethau ymateb ac atal brys dros y tymor canolig a'r tymor hir. |
| **Cyfreithiol** | Roedd yr holl weithgareddau benthyca a buddsoddi'n cydymffurfio â'r fframwaith statudol a gofynion Cod Rheoli Trysorlys CIPFA a'r Cod Darbodus. |
| **Staffio** | Dim goblygiadau staffio uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn. |
| **Cydraddoldebau/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran cydraddoldeb, hawliau dynol na'r Gymraeg yn deillio o'r adroddiad hwn. |
| **Risgiau** | Mae'r prif risgiau'n ymwneud ag anwadalrwydd cyfraddau llog, gofynion benthyca yn y dyfodol, a diogelwch cronfeydd a fuddsoddwyd. Caiff y risgiau hyn eu lliniaru drwy lynu wrth derfynau buddsoddi cymeradwy, dull gofalus sy'n blaenoriaethu diogelwch a hylifedd, a monitro gwrthbartïon ac amodau'r farchnad yn rheolaidd. Mae'r meincnod rhwymedigaethau'n cadarnhau bod yr Awdurdod yn fenthyciwr hirdymor, gan atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith rheoli trysorlys gweithredol parhaus a goruchwyliaeth gan aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw 2026/27 – Cyfnod 5** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar sefyllfa cyllideb refeniw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (Yr Awdurdod) ar 31 Awst 2026 ac amlygu amrywiadau, risgiau ariannol sy'n dod i'r amlwg a'r sefyllfa alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r rhagolwg diweddaraf yn dangos gorwariant rhagamcanedig o £0.313m ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n cyfateb i oddeutu 0.6% o ofyniad cyllideb net yr Awdurdod o £54.104m. Dylid ystyried y rhagolwg hwn yng nghyd-destun cyllideb gwariant gros a phwysau gweithredol parhaus a brofwyd yn ystod pum mis cyntaf y flwyddyn.

3 Mae'r prif bwysau ariannol yn ymwneud â chostau gweithwyr, y rhagwelir y byddant yn fwy na'r gyllideb o oddeutu £0.533m. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd mewn gweithgarwch gweithredol, yn enwedig yn ystod cyfnod yr haf, ynghyd ag effaith ariannol twf parhaus yn niferoedd diffoddwyr tân ar alwad a chostau cysylltiedig ymateb i ddigwyddiadau. Mae'r elfennau pwysau hyn yn cael eu gwrthbwyso'n sylweddol gan danwariant a ragwelir o fewn cyllidebau Cyflenwadau a Gwasanaethau, sy'n deillio'n bennaf o lithriad prosiect, gwahaniaethau amseru a gwariant gohiriedig.

4 Mae effaith ariannol tanau gwyllt sylweddol a brofwyd ledled Cymru yn ystod yr haf yn parhau i fod yn faes ffocws penodol. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn asesu'r goblygiadau cost llawn ac yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chefnogaeth bosibl trwy'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys (EFAS). Ar hyn o bryd, mae'r rhagolwg yn tybio nad oes unrhyw ad-daliad EFAS ac felly yn cynrychioli asesiad darbodus o sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) **Nodi'r sefyllfa ariannol ar gyfer refeniw a chyfalaf; a**
ii) **Nodi bwriad yr Awdurdod i ofyn am gymorth gan Lywodraeth Cymru trwy'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys mewn perthynas â'r costau eithriadol sy'n gysylltiedig â thanau gwyllt.**

## CEFNDIR

6 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd wedi ei chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn. Cymeradwywyd y gyllideb derfynol ar gyfer 2026/27 gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb refeniw net o £54.104m i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

7 Wrth bennu'r gyllideb, cymeradwyodd yr Aelodau ystod o fesurau nad ydynt yn rheolaidd sy'n angenrheidiol i sicrhau cydbwysedd ariannol o fewn 2026/27 a oedd yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn.

8 Cyflwynwyd y cynllun cyfalaf o £6.661m i'r gweithgor Craffu ar y Gyllideb a chafodd ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

## GWYBODAETH

## CYLLIDEB REFENIW YTD

9 Ar 31 Awst 2026, mae'r Awdurdod wedi ysgwyddo gwariant gros o oddeutu £18.744m yn erbyn cyllideb wedi'i phroffilio o £20.668m, ynghyd ag ymrwymiadau o £4.966m. Mae hyn yn arwain at gyfanswm gwariant ac ymrwymiadau o £23.710m ar ddiwedd Cyfnod 5.

10 Mae llawer o gyflenwadau, contractau cynnal a chadw, trwyddedau meddalwedd ac ymrwymiadau gweithredol yn disgyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol ac felly nid yw'r sefyllfa bresennol o ran y flwyddyn hyd yma o reidrwydd yn arwydd o'r alldro terfynol.

**RHAGOLWG ALLDRO**

| | Cyllideb (£'m) | Alldro (£'m) | Defnydd o Gronfeydd wrth Gefn (£'m) | Cyfraniadau CERA (£'m) | Cyfanswm (£'m) | Amrywiant (£'m) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 39.902 | 40.435 | 0 | 0 | 40.435 | 0.533 | 1.34% |
| Adeiladau | 2.578 | 2.707 | 0 | 0 | 2.707 | 0.129 | 5.02% |
| Cludiant | 1.404 | 1.442 | 0 | 0 | 1.442 | 0.038 | 2.67% |
| Cyflenwadau | 6.586 | 6.034 | (0.271) | 0 | 5.763 | (0.823) | (12.50%) |
| Trydydd Parti | 0.488 | 0.488 | 0 | 0 | 0.488 | 0 | 0% |
| Cost Cyfalaf | 4.464 | 4.605 | 0 | 0 | 4.605 | 0.141 | 3.17% |
| Incwm | (1.047) | (1.024) | 0 | 0 | (1.024) | 0.023 | (2.22%) |
| Cronfeydd Wrth Gefn | (0.271) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| **Is-Gyfanswm** | **54.104** | **54.688** | **(0.271)** | **0** | **54.417** | **0.313** | **0.6%** |
| Ardollau | (54.104) | (54.104) | 0 | 0 | (54.104) | 0 | 0.0% |
| **Alldro** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0.313** | **0.313** | **0.6%** |

11 **Costau gweithwyr** yw'r maes pwysau ariannol mwyaf arwyddocaol yn dal i fod, gan gynrychioli dros 70% o sylfaen gwariant yr Awdurdod. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd gwariant gweithwyr yn fwy na'r gyllideb o oddeutu £0.533m erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r prif gyfranwyr at y pwysau yma'n cynnwys:

- £0.457m - Ffioedd digwyddiadau Ar Alwad y flwyddyn hyd yma.
- £0.168m - Gwariant goramser y flwyddyn hyd yma.

12 Roedd cyllideb 2026/27 yn cynnwys dyfarniad cyflog tybiedig o 3.8% ar gyfer pob grŵp staff. Setlwyd y dyfarniad cyflog ar gyfer staff llywodraeth leol, sy'n weithredol o fis Ebrill 2026, ar 3.3%, tra bod dyfarniad cyflog y diffoddwyr tân wedi'i setlo ar 3.8% o 1 Gorffennaf 2026.

13 Bydd yr aelodau yn ymwybodol bod gwella argaeledd diffoddwyr tân ar alwad wedi bod yn amcan hirsefydlog i'r Awdurdod. Yn ystod y 12 mis diwethaf mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i gynyddu lefelau niferoedd y diffoddwyr tân ar alwad, gan wella gwydnwch gweithredol ac argaeledd peiriannau ledled Gogledd Cymru.

| Dadansoddiad System Dyletswydd Ar Alwad | Cyllideb 2026/27 | Aws-23 | Aws-24 | Aws-25 | Aws-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 489 | 465 | 473 | 485 | 536 |

14 Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Gwasanaeth wedi parhau i gryfhau gwydnwch gweithredol trwy weithgaredd recriwtio a chadw llwyddiannus o fewn y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS). Cynyddodd nifer y staff System Dyletswydd Ar Alwad o 485 ym mis Awst 2025 i 536 ym mis Awst 2026. Mae'r gwelliant hwn yn cyfrannu at argaeledd peiriannau a gallu'r Awdurdod i ymateb i ddigwyddiadau ledled Gogledd Cymru. Er bod hyn yn cynrychioli canlyniad gweithredol cadarnhaol, mae lefelau staffio uwch hefyd yn arwain at wariant ychwanegol ar ffioedd ar alwad, ffioedd digwyddiadau, hyfforddiant a chostau cyflogwyr. Mae amcangyfrifon cyfredol yn awgrymu bod y twf hwn yn creu pwysau cyllidebol cylchol o oddeutu £500k y flwyddyn, cyn effaith dyfarniadau cyflog y dyfodol.

15 Rhagwelir y bydd cyllidebau **adeiladau** yn gorwario tua £129k. Mae hyn yn adlewyrchu gwariant ychwanegol sy'n gysylltiedig ag eiddo, gwaith wedi'i gynllunio a gweithgarwch ymgynghori ar draws portffolio yr ystad. Er bod rhywfaint o bwysau wedi dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, mae'r amrywiant cyffredinol yn parhau i fod yn gymharol gymedrol yng nghyd-destun cyllideb eiddo'r Awdurdod.

16 Rhagwelir y bydd cyllidebau **cludiant** yn gorwario tua £38k, yn bennaf oherwydd gwaith cynnal a chadw arbenigol, costau teiars, tanwydd a gwariant arall sy'n gysylltiedig â defnydd. Mae costau'n parhau i gael eu monitro'n agos o ystyried yr ansicrwydd ynghylch prisiau tanwydd a'r galw gweithredol.

17 Rhagwelir y bydd cyllidebau **Cyflenwadau a Gwasanaethau** yn tanwario o oddeutu £0.823m, gan roi'r brif ffynhonnell liniaru yn erbyn pwysau gweithwyr. Mae'r tanwariant a ragwelir yn adlewyrchu:

- Oedi cyn prynu offer.
- Llithriad wrth weithredu prosiect.
- Ailbroffilio gwariant i gyfnodau yn y dyfodol.
- Gwariant is na'r disgwyl yn erbyn cyllidebau wrth gefn.
- Gwahaniaethau amseru ar brosiectau meddalwedd, trwyddedau a rhai gweithredol.

18 Mae swyddogion yn adolygu'r cyllidebau hyn i benderfynu a ellir cyflawni'r gwariant yn ystod 2026/27 neu a allai fod angen ceisiadau i'w cario ymlaen i'r dyfodol.

19 Rhagwelir y bydd cyllidebau **Taliadau Trydydd Parti** yn parhau i fod yn unol â'r gyllideb.

20 Rhagwelir y bydd **costau ariannu cyfalaf** yn fwy na'r gyllideb o oddeutu £141k, gan adlewyrchu rhagdybiaethau benthyca a chyllido sy'n gysylltiedig â chyflawni rhaglen gyfalaf yr Awdurdod ac effaith barhaus cyfraddau llog uwch.

21 Mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol yn parhau i fod yn hylaw ar hyn o bryd yn y flwyddyn, gyda gorwariant wedi'i ragweld o £313k sy'n cynrychioli llai nag 1% o ofyniad cyllideb net yr Awdurdod. Y risgiau ariannol allweddol ar gyfer gweddill y flwyddyn yw:

- Gweithgarwch parhaus yr ochr weithredol a chostau ymateb i danau gwyllt.
- Gwariant gweithwyr yn arbennig costau diffoddwyr tân ar alwad a goramser.
- Cyflawni proffiliau arbedion a gwariant arfaethedig.
- Pwysau chwyddiant.

**Gweithgaredd Tanau Gwyllt ac Effaith Ariannol**

22 Yn ystod haf 2026 bu gweithgarwch tanau gwyllt helaeth ar draws Gogledd Cymru ac ardaloedd cyfagos. Mae'r digwyddiadau hyn wedi golygu bod angen lleoli staff gweithredol am gyfnodau hir, trefniadau gorchmynion estynedig, criwiau cymorth, cyfleusterau lles a mwy o ddefnydd o offer. Mae'r effaith ariannol yn dod yn amlwg ar draws sawl pennawd cyllideb gan gynnwys:

- Ffioedd digwyddiad ar alwad.
- Costau goramser.
- Defnydd o danwydd.
- Costau lles arlwyo a diffoddwyr tân.
- Treuliau rhedeg cerbydau.
- Amnewid a chynnal a chadw offer.
- Nwyddau traul gweithredol a Offer Gwarchod Personol.

23 Mae gwariant y flwyddyn hyd yma ar gostau arlwyo a chymorth sy'n gysylltiedig â digwyddiadau eisoes yn fwy na phroffiliau'r gyllideb mewn sawl maes, tra gellir gweld yr effaith ehangach hefyd drwy wariant sy'n gysylltiedig â gweithwyr.

24 Er bod effaith ariannol lawn tymor y tanau gwyllt yn dal i gael ei mesur, disgwylir y bydd gweithgaredd tanau gwyllt yn parhau i fod yn gyfrannwr sylweddol at y gorwariant ar gyllideb y gweithwyr a ragwelir ar hyn o bryd.

**Cynllun Cymorth Ariannol Brys (EFAS)**

25 Ar hyn o bryd mae swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chydweithwyr gweithredol i nodi gwariant cymwys sy'n deillio'n uniongyrchol o weithgarwch ymateb i danau gwyllt.

26 Pan fo gwariant yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd perthnasol, mae'r Awdurdod yn bwriadu gofyn am adferiad trwy'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys (EFAS). Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod yr holl gostau ychwanegol wedi'u nodi'n glir, wedi'u tystiolaethu a'u cofnodi'n briodol.

27 Nid oes unrhyw ad-daliad EFAS wedi'i gynnwys yn y sefyllfa alldro a ragwelir ar hyn o bryd. O ganlyniad, byddai unrhyw hawliad llwyddiannus yn gwella sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

28 Bydd yr Aelodau'n cael eu hysbysu wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael am gostau cymwys a thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru.

**RHAGLEN GYFALAF**

29 Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf ar gyfer 2026/27 gwerth cyfanswm o £6.661 miliwn ym mis Ionawr 2026, gyda £3.434 miliwn ychwanegol yn cael ei ddwyn ymlaen oherwydd oedi wrth gyflawni a chynlluniau wedi'u gohirio. A £2.600m arall ar gyfer datblygiad Hwb Awen i Borth 4 RIBA.

30 Ar ddiwedd Awst 2026, cyfanswm y gwariant cyfalaf oedd £0.559 miliwn, gydag ymrwymiadau o £6.253 miliwn. Disgwylir i'r rhan fwyaf o gynlluniau gael eu cyflawni o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol, gyda disgwyl i rywfaint o wariant fflyd drosglwyddo i flynyddoedd i ddod oherwydd yr amserlenni caffael ac adeiladu sy'n gysylltiedig â cherbydau fflyd.

| **Enw/Disgrifiad o'r Prosiect** | **Cyllideb (£m)** | **Gwirioneddol £m** | **Ymrwymiadau £m** | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|
| Fflyd | 3.432 | 0 | 2.199 | 2.199 |
| Cyfleusterau | 0.985 | 0.055 | 0.009 | 0.064 |
| Gweithrediadau Technoleg | 1.844 | 0 | 0 | 0 |
| Cynaliadwyedd | 0.400 | 0.009 | 0.014 | 0.023 |
| **Is-Gyfanswm 2026/27** | **6.661** | **0.064** | **2.222** | **2.286** |
| Cyllideb Dreigl | 3.434 | 0.100 | 2.080 | 2.180 |
| Hwb Awen | 2.600 | 0.395 | 1.951 | 2.346 |
| **Is-Gyfanswm** | **6.034** | **0.495** | **4.031** | **4.526** |
| **Cyfanswm** | **12.695** | **0.559** | **6.253** | **6.812** |

31 Gwnaed cynnydd o ran ymrwymo gwariant yn erbyn y rhaglen gyfalaf gymeradwy, gydag ymrwymiadau a gwariant yn dod i gyfanswm o £6.812m, sy'n cynrychioli dros 50% o gyfanswm gwerth y rhaglen o £12.695m. Mae'r gweithgarwch hyd yma wedi canolbwyntio'n bennaf ar ailgyflenwi'r fflyd, datblygu Hwb Awen a buddsoddiad parhaus yn yr ystad. Er bod gwariant yn is nag y byddai'n ddisgwyliedig ar yr adeg yma o'r flwyddyn, mae hyn yn adlewyrchu natur prosiectau cyfalaf lle mae gwariant sylweddol yn cael ei wneud ar ôl caffael, dyfarnu contract a cherrig milltir cyflawni yn hytrach nag yn gyson trwy gydol y flwyddyn.

32 Mae maes mwyaf yr ymrwymiad gwariant yn ymwneud â'r Rhaglen Fflyd, lle mae amseroedd arweiniol ar gyfer caffael, adeiladu cerbydau a gosod offer arbenigol yn parhau i effeithio ar amserlenni cyflenwi. O ganlyniad, efallai y bydd angen ailbroffilio rhywfaint o'r gwariant sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2026/27 ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae swyddogion yn parhau i adolygu gofynion cyflawni prosiectau a chyllid i sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn parhau i fod yn fforddiadwy, yn gyflawnadwy ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol yr Awdurdod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i roi ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei phennu bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'r Awdurdod yn parhau i gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiadau ariannol a chynnal cyllideb gytbwys. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldebau/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n briodol i'r Aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Medi 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Pennu Cyllideb 2027/28** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r rhagdybiaethau cynllunio, y pwysau cyllidebol sy'n dod i'r amlwg, y datblygiadau strategol, y gofynion ymgynghori a'r amserlenni sy'n sylfaen i broses Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2027/28.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo cyllideb refeniw gytbwys ar gyfer 2027/28. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r rhagdybiaethau cynllunio cychwynnol, y pwysau cyllidebol sy'n dod i'r amlwg, y blaenoriaethau strategol, y risgiau a'r ansicrwydd a fydd yn llywio'r broses o osod cyllideb.

3 Mae'r asesiad ariannol yn dal yn y camau cynnar, a bydd yn cael ei fireinio yn dilyn adolygiadau manwl o gostau gweithwyr, gwariant nad yw'n gyflog, incwm, ariannu cyfalaf ac achosion busnes adrannol. Mae'r meysydd penodol sy'n peri ansicrwydd yn cynnwys: diwygio cyflogau, cyfraddau cyfraniadau pensiwn cyflogwyr, costau benthyca, incwm grant, goblygiadau refeniw a chyfalaf Hwb Awen, gofynion buddsoddi ystadau, a newidiadau yn y galw gweithredol a rheoleiddio.

4 Bydd Aelodau yn craffu ar y broses o bennu cyllideb drwy'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb. Ar ôl ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol, bydd y gofyniad cyllideb arfaethedig yn destun ymgynghoriad ffurfiol. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried cyn i'r Awdurdod benderfynu ar y gyllideb derfynol a'r ardoll ar gyfer 2027/28.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) **Nodi'r rhagdybiaethau sy'n llywio cyllideb 2027/28;**
ii) **Nodi cylch gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb; ac yn**
iii) **Nodi'r amserlenni a'r gofynion ymgynghori.**

**CEFNDIR**

6 Bob blwyddyn, rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb refeniw gytbwys sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn. Er nad oes diffiniad ffurfiol o "cytbwys" wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth, mae canllawiau CIPFA yn pwysleisio'r angen am gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig.

7 Mae cynaliadwyedd ariannol yn dibynnu ar ddealltwriaeth glir o'r gost o gyflawni amcanion sefydliadol, ochr yn ochr ag asesiad realistig o'r galw am wasanaethau, y risgiau, yr adnoddau sydd ar gael, y buddsoddiad cyfalaf a blaenoriaethau strategol yr Awdurdod.

8 Mae proses gynllunio 2027/28 yn adeiladu ar ganlyniad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'r gwaith dilynol ar niferoedd criw ac argaeledd gweithredol. Y modelau presennol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau fydd y man cychwyn ar gyfer cynllunio cyllideb, yn amodol ar unrhyw benderfyniadau a wneir drwy drefniadau llywodraethiant yr Awdurdod.

9 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith strategol a gweithredol sylweddol, gan gynnwys datblygu Hwb Awen, trosglwyddo gwasanaethau rheoli cyfleusterau o Heddlu Gogledd Cymru, gofynion cyflwr yr ystad a datgarboneiddio, a chamau gweithredu sy'n deillio o weithgarwch adolygu allanol a sicrwydd gweithredol.

10 Mae'r amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn ansicr. Cyflog yw'r elfen fwyaf o wariant, tra bod cyllidebau costau nad ydynt yn gyflogau yn parhau i deimlo effaith pwysau chwyddiant cytundebol, yswiriant, meddalwedd, ynni, offer a'r gadwyn gyflenwi. Mae costau benthyca ac ail-ariannu hefyd yn parhau i fod yn ystyriaeth sylweddol i'r rhaglen gyfalaf.

11 Rhaid i'r Awdurdod hefyd gydymffurfio â gofynion statudol newydd i ymgynghori â'i awdurdodau lleol cyfansoddol fel rhan o'r broses o osod cyllideb. Mae hyn yn newid sylweddol i'r broses, a rhaid cwblhau ymgynghoriad ystyrlon ac ystyried yr ymatebion cyn gwneud penderfyniadau terfynol am ofyniad gwariant net ac ardoll yr Awdurdod.

**GWYBODAETH**

12 Mae proses gosod cyllideb 2027/28 yn cael ei lywio gan ganlyniad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys 2023/24 a gwaith y Grŵp Gweithredu'r Cydgytundeb. Mae'r rhagdybiaeth gynllunio bresennol yn adlewyrchu parhad criwio cnewyllyn ym Mhorthmadog a Dolgellau er mwyn cynnig darpariaeth yn ystod y dydd. Bydd goblygiadau ariannol y trefniadau y cytunwyd arnynt yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb fanwl i weithwyr.

13 Mae'r broses o bennu cyllideb yn ddarostyngedig i drosolwg a chraffu gan yr Aelodau drwy'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb. Mae'r Gweithgor yn cynnwys cynrychiolaeth o bob awdurdod lleol cyfansoddol ac mae disgwyl iddo gyfarfod bum gwaith rhwng Awst a Rhagfyr 2026.

14 Bydd adolygiadau manwl o gostau gweithwyr, gwariant nad yw'n gyflogau, incwm ac ariannu cyfalaf yn cael eu cynnal i gynorthwyo'r Aelodau i ddeall, craffu a herio. Bydd canlyniad y gwaith yn llywio'r gofyniad cyllideb arfaethedig a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol ym mis Rhagfyr 2026.

15 Bydd y broses gynllunio hefyd yn ystyried gofynion cyfalaf yr Awdurdod dros y cyfnod cynllunio tymor canolig, gan gynnwys fforddiadwyedd a chyllid y rhaglen gyfalaf. Bydd y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yn cynnal sesiwn bwrpasol ym mis Medi i ystyried goblygiadau cyfalaf a refeniw sy'n dod i'r amlwg o brosiect Canolfan Hyfforddi Hwb Awen.

16 Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol a'r gofyniad cyllideb arfaethedig ar gyfer 2027/28 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol yn eu cyfarfodydd ar 14 Rhagfyr 2026. Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r gofyniad cyllideb arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol â'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol.

17 Ar ôl cymeradwyo ymgynghoriad, bydd yr Awdurdod yn cynnal trefn ymgynghori ffurfiol gyda'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol. Bydd yr ymgynghoriad yn nodi'r gofyniad gwariant net arfaethedig, goblygiadau ardoll, cydweddu â'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, a'r naratif ariannol ategol. Bydd yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol cyfansoddol gyflwyno adborth ysgrifenedig ystyrlon o fewn yr amserlen ar gyfer pennu cyllideb.

18 Bydd cynigion terfynol y gyllideb ar gyfer 2027/28, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac unrhyw ddiwygiadau arfaethedig sy'n deillio o'r adborth hwnnw, yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod i'w hystyried a'u cymeradwyo yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2027.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r broses o osod cyllideb yn cefnogi Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod drwy sicrhau cynaliadwyedd ariannol ac mae’n ymateb i risgiau cymunedol sy'n esblygu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). |
| Cyllideb | Mae'r broses o bennu cyllideb yn debygol o arwain at gynnydd yn yr ardoll. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i bennu cyllideb gytbwys yn seiliedig ar ragdybiaethau realistig ac ar dystiolaeth. |
| Staffio | Mae dros 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff ac felly mae'n ffactor arwyddocaol wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn cael ystyriaeth o fewn y cynigion ar gyfer pennu’r gyllideb. |
| Risgiau | Mae'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol i gyllideb 2027/28 wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1. |

**Atodiad 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau a'r risgiau cynllunio**

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Y modelau presennol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yw'r man cychwyn, yn amodol ar benderfyniadau a wneir trwy drefniadau llywodraethiant yr Awdurdod<br>• Mae cyllidebau staff y System Dyletswydd Ar Alwad wedi'u seilio ar gyfrif staff Gorffennaf 2026, gyda darpariaeth ar gyfer cynnydd o 15 yn niferoedd y System Dyletswydd Ar Alwad yn ystod 2027/28. Mae nifer y staff ar alwad wedi cynyddu 52 dros y 12 mis diwethaf, gan greu pwysau amcangyfrifedig o tua £500k cyn dyfarnu cyflogau. Byddai cyllidebu ar gyfer y nifer staffio llawn angenrheidiol yn arwain at gost ychwanegol o tua £3 miliwn.<br>• Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer dyfarniadau cyflog ar gyfer 2027/28 yn gynnydd o 4% ar gyfer pob grŵp staff.<br>• Nid yw unrhyw newid yng nghyfraddau cyfraniadau pensiwn cyflogwyr wedi'i gynnwys ar hyn o bryd. | • Cafwyd cytundeb cenedlaethol yn 2026/27 ar gyfer staff a oedd dan amodau'r llyfr llwyd, ac roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i fwrw ymlaen â'r agenda moderneiddio cyflogau. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo yn genedlaethol, ac nid yw'r canlyniad a'r amseriad yn hysbys ar hyn o bryd, er y gall fod yn wahanol i'r rhagdybiaeth gynllunio.<br>• Gall cyfraddau pensiwn cyflogwyr ar gyfer cynllun pensiwn y diffoddwyr tân newid yn dilyn prisiad GAD 2024, a fydd yn cael ei adrodd yn hydref 2026. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy’n cael eu defnyddio wrth bennu’r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau nad ydynt yn gyflogau | • Bydd cyllidebau yn seiliedig ar y modelau presennol ar gyfer cyflwyno’r gwasanaethau a'r cynllun ariannol pedair blynedd.<br>• Tybir lefel chwyddiant o 3% ar gyfer 2027/28, gan ostwng i 2% yn y blynyddoedd diweddarach.<br>• Mae costau nad oes modd eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n gyflogau. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi diffoddwyr tân yr ochr weithredol a rheoli halogyddion.<br>• Mae cyllidebau wedi’u llunio gan bob Pennaeth Adran perthnasol yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u barn broffesiynol am y gwariant sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o rwymedigaethau cytundebol sylfaenol ac amcangyfrifon o weithgarwch. Mae ceisiadau newydd am gyllid dros £10,000 yn ddarostyngedig i achos busnes, a bydd craffu arno. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau ac yn ymdrechu i reoli pwysau o ran costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hyn yn parhau i fod yn faes risg ac ansicrwydd. Yn benodol, nodwyd bod oedi wrth ddarparu nwyddau neu wasanaethau wedi effeithio ar broffiliau amser gwariant.<br>• Er bod chwyddiant costau yn gyffredinol yn haws i’w reoli nag a fu yn y blynyddoedd diwethaf, nodir bod rhai meysydd sy’n parhau i beri gofid. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn costau yswiriant a thrwyddedau ar gyfer meddalwedd gan gynnwys systemau critigol i fusnes a chostau yswiriant.<br>• Cost ychwanegol nad yw'n gyflog ynghylch penderfyniad i barhau â Hwb Awen neu ddim.<br>• Yn dilyn y gweithgarwch sylweddol o ganlyniad i dywydd anodd, mae gwaith yn mynd rhagddo yn genedlaethol i ystyried y dull a'r camau gweithredu angenrheidiol yn y dyfodol. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn y gyllideb gan fod y gwaith hwn yn ei gamau cynnar. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy’n cael eu defnyddio wrth bennu’r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Ariannu Cyfalaf | • Mae'r gofynion ariannu cyfalaf ar gyfer 2027/28 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer yr isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer yr asedau presennol ac amcangyfrif o'r taliadau llog sy'n deillio o fenthyca. Yn dylanwadu ar y costau hyn mae gwariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyca ar gyfer rhaglen gyfalaf 2027/28 ac effaith cynnydd mewn cyfraddau llog wrth ail-ariannu benthyciadau sy’n aeddfedu.<br>• Mae’r asesiad cynllunio cychwynnol yn rhagdybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol ar gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar adeg pennu’r gyllideb, yr amcangyfrifir ei bod yn 5% ar hyn o bryd (4.6% yn 2026/27). Mae'r Awdurdod yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol ar y mater hwn gan Arlingclose, cwmni cynghori arbenigol.<br>• Mae'r cynllun cyfalaf yn cynnwys costau posibl sy'n gysylltiedig ag achosion busnes a gyflwynir gan bob Pennaeth Adran. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn ardal risg allweddol ac mae'r gwariant cyfalaf a broffiliwyd yn yr SATC yn ei waethygu. Bydd modelu ariannol yn cael ei wneud i asesu pa mor fforddiadwy yw’r holl gynlluniau yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.<br>• Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir na fydd yr achos busnes terfynol a'r opsiynau ariannu yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo tan 2027 bydd darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl yn cael ei chynnwys yn amcangyfrifon cychwynnol y gyllideb.<br>• Mae’r hyn sydd wedi cronni o safbwynt yr ystad a gofynion datgarboneiddio yn parhau i fod yn amodol ar flaenoriaethu, dilysu costau a phenderfyniadau ariannu. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Incwm | • Mae cyllidebau incwm wedi cael eu hadolygu a'u pennu yn unol â'r blynyddoedd blaenorol, yn amodol ar chwyddiant fel y nodir trwy ein Cytundebau Lefel Gwasanaeth.<br>• Bu gostyngiad sylweddol yn incwm grant Llywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd y broses o bennu'r gyllideb yn rhagdybio y bydd gweddill y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn ar lefelau 2025/26. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru, nas rhagwelir cynnydd chwyddiant arno. |
| Arall | • Mae'r gyllideb yn rhagdybio lefelau arferol o weithgarwch, oni ddangosir tystiolaeth o bwysau penodol a chymeradwyo hynny.<br>• Bydd datblygiadau gweithredol a rheoleiddiol hysbys yn cael eu hasesu trwy gyflwyniadau adrannol ac achosion busnes.<br>• Mae £130k wedi'i gynnwys ar gyfer dwy swydd Rheolwr Criw Gweithrediadau Technegol a gymeradwywyd yn flaenorol ac a ohiriwyd yn dilyn adolygiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru. | • Yn dilyn y gweithgarwch sylweddol o ganlyniad i dywydd anodd, mae gwaith yn mynd rhagddo yn genedlaethol i ystyried y dull a'r camau gweithredu angenrheidiol yn y dyfodol. Gallai hyn arwain at gynyddu costau gweithredol, staffio, fflyd ac offer. Nid oes darpariaeth yn y gyllideb wedi'i wneud eto gan fod y gwaith hwn yn ei gamau cynnar.<br>• Gall newid rheoleiddiol posibl sy'n effeithio ar adeiladau rhwng 11 a 18 metr gynyddu'r angen am staffio, hyfforddiant a gweithgarwch gweithredol ychwanegol. Mae'r asesiad cynnar wedi cynnwys cost ychwanegol anochel amcangyfrifedig o oddeutu £0.5m. Nid oes darpariaeth wedi'i wneud yn y gyllideb eto. |